

# Y Pwyllgor Cyllid Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru): Adroddiad Pwyllgor Cyfnod 1

---

Mawrth 2017



Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Y Pwyllgor Cyllid



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
**[www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid](http://www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid)**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cyllid**  
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**Bae Caerdydd**  
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**  
E-bost: **[SeneddCyllid@cynulliad.cymru](mailto:SeneddCyllid@cynulliad.cymru)**  
Twitter: **[@SeneddCyllid](https://twitter.com/SeneddCyllid)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Y Pwyllgor Cyllid  
**Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi  
(Cymru): Adroddiad Pwyllgor  
Cyfnod 1**

---

Mawrth 2017



# Y Pwyllgor Cyllid

Cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheol Sefydlog 19; swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 18.10 a 18.11; ac ystyried unrhyw fater arall sy'n ymwneud â Chronfa Gyfunol Cymru.

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Simon Thomas AC (Cadeirydd)**  
Plaid Cymru  
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**Mike Hedges AC**  
Llafur Cymru  
Dwyrain Abertawe



**Steffan Lewis AC**  
Plaid Cymru  
Dwyrain De Cymru



**Eluned Morgan AC**  
Llafur Cymru  
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**Nick Ramsay AC**  
Ceidwadwyr Cymreig  
Mynwy



**Mark Reckless AC**  
UKIP Cymru  
Dwyrain De Cymru



**David Rees AC**  
Llafur Cymru  
Aberafan

---

# Cynnwys

Argymhellion .....	5
01. Cyflwyniad.....	9
02. Y cefndir .....	12
03. Egwyddorion cyffredinol .....	15
04. Y pwerau yn y Bil i wneud rheoliadau .....	19
05. Rhan 2 – Y dreth a gwarediadau trethadwy.....	24
06. Rhan 3 – Gwarediadau trethadwy a wneir ar safleoedd tirlenwi awdurdodedig .....	33
07. Rhan 4 – Gwarediadau trethadwy a wneir mewn lleoedd heblaw safleoedd tirlenwi awdurdodedig .....	39
08. Rhan 5 – Darpariaethau atodol.....	42
09. Cynllun Cymunedol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi.....	49
10. Goblygiadau ariannol y Bil .....	56
Atodiad A – Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar .....	61
Atodiad B – Rhestr o’r dystiolaeth ysgrifenedig.....	62





# Argymhellion

- Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru).  
..... Tudalen 18
- Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i gael sicrwydd na fydd y newidiadau arfaethedig i Fil Cyllid 2017 yn effeithio'n andwyol ar weithredwyr safleoedd tirlenwi yng Nghymru cyn mis Ebrill 2018..... Tudalen 18
- Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried y darpariaethau ar wyneb y Bil a'r darpariaethau a gaiff eu gweithredu drwy reoliadau. Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylid cynnwys rhagor o fanylion ar wyneb y Bil, gan gynnwys y cyfraddau trethiant arfaethedig, neu fan lleiaf fod y cyfraddau arfaethedig yn cael eu cyhoeddi cyn 1 Hydref 2017..... Tudalen 23
- Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i weithio â'r Pwyllgor i gyflwyno bil fframwaith ariannol cyn gynted ag y bo modd, er mwyn gallu cyflwyno bil cyllideb / cyllid blynyddol. .... Tudalen 23
- Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried y diffiniad o waredu deunydd fel gwastraff yn adran 6 (Gwaredu deunydd fel gwastraff) er mwyn bod yn fwy eglur a syml. .... Tudalen 28
- Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd ynghylch gweithredwyr a rheolwyr i fodloni ei hun a'r Pwyllgor na fydd hyn yn broblem yng Nghymru. .... Tudalen 28
- Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried geiriad adran 11 (Mynwentydd anifeiliaid anwes) ynghylch gwaredu anifeiliaid anwes meirw, gan roi ystyriaeth benodol i symleiddio'r gyfraith a sicrhau cysondeb dwyieithog. .... Tudalen 32
- Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn dal i fod yn ansicr ar ba achlysur y gallai esemptiad fod yn gymwys i warediad heb awdurdod ac mae'n argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu Pennod 3 o Ran 2 o'r Bil, gan ystyried sut y gallai esemptiadau fod yn gymwys i warediadau heb awdurdod yn y dyfodol.  
..... Tudalen 32

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu adran 26 (Deunydd a dynnir o wely afon, o wely'r môr neu o wely dyfroedd eraill) er mwyn sicrhau bod deunydd a dynnir yn ystod gweithgareddau atal llifogydd yn ddarostyngedig i'r un rhyddhadau â deunydd a dynnir er budd mordwyaeth.

..... Tudalen 32

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu adran 27 (Deunydd sy'n deillio o fwyngloddio a chwarela) i sicrhau nad yw'n achosi dryswch ymysg rhanddeiliaid..... Tudalen 32

**Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod adran 15 (Deunydd cymwys) yn pennu'r rhestr o ddeunyddiau cymwys, a bod y Bil yn cynnwys pŵer i ddiwygio'r rhestr hon drwy reoliadau. .... Tudalen 38

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r Bil mewn perthynas ag adran 16 (Cymysgeddau cymwys o ddeunyddiau) gan gyfeirio'n benodol at y darpariaethau o dan yr adran hon sy'n cyfeirio at 'swm bychan'. .... Tudalen 38

**Argymhelliad 13.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r Bil mewn perthynas ag adran 20 (Pennu pwysau deunydd gan y gweithredwr) gan gyfeirio'n benodol at y gofyniad i 'bennu pwysau'r deunydd mewn gwarediad trethadwy cyn y gwneir y gwarediad'. .... Tudalen 38

**Argymhelliad 14.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn monitro nifer y gwarediadau heb awdurdod a'r erlyniadau sy'n deillio o hynny, ac yn eu cyhoeddi, i fesur llwyddiant y darpariaethau sy'n ymwneud â gwarediadau heb awdurdod. ....Tudalen 41

**Argymhelliad 15.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried newid y cyfnod o 75 diwrnod a ddarperir ar gyfer talu'r dreth ar warediadau heb awdurdod a allai fod wedi digwydd hyd at 20 mlynedd cyn hynny. ....Tudalen 41

**Argymhelliad 16.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r darpariaethau yn adran 61 (Cosb am gymhwyso'r disgownt dŵr yn anghywir) i sicrhau na chaiff gweithredwyr eu cosbi os na fyddant yn gwneud cais am y disgownt llawn sydd ar gael iddynt ..... Tudalen 46



**Argymhelliad 17.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r gosb sy'n gysylltiedig â methu â chofrestru gydag Awdurdod Cyllid Cymru. ....Tudalen 46

**Argymhelliad 18.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r ddarpariaeth ar gyfer rhyddhad ar ddyledion drwg ac o dan ba amgylchiadau y caniateir cymhwyso hynny, gael ei rhoi ar y wyneb y Bil, a bod hynny'n cael ei ategu gan bŵer i wneud rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. .... Tudalen 48

**Argymhelliad 19.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid cyfeirio at ddarpariaeth i sefydlu cynllun cymunedau ar wyneb y Bil, ond y gellid gwneud darpariaeth amgen ar gyfer y manylion am gymhwyso'r cynllun..... Tudalen 54

**Argymhelliad 20.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cadarnhau pa gyfran o refeniw'r dreth gwarediadau tirlenwi a gaiff ei dyrannu i Gynllun Cymunedol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi cyn i'r Bil ddod i rym.  
..... Tudalen54

**Argymhelliad 21.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru, wrth ystyried sut y byddai Cynllun Cymunedol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn gweithredu, roi sylw i'r meysydd canlynol a grybwyllwyd yn y dystiolaeth:

- yr angen i sicrhau cymhwyster prosiectau trawsffiniol;
- rhannu'r arian yn gyfartal rhwng y tair thema allweddol, sef bioamrywiaeth, lleihau gwastraff a gwelliannau amgylcheddol eraill;
- sicrhau bod y cynllun ar gael i gymunedau lle mae achosion mynych o wastraff yn cael ei waredu heb awdurdod (os digwydd bod treth yn cael ei chodi);
- cynnwys proses o adfer safleoedd gwaredu gwastraff diffaith neu amddifad o fewn cwmpas y cynllun..... Tudalen 55

**Argymhelliad 22.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu costau manylach ar gyfer gorfodi'r darpariaethau sy'n ymwneud â gwaredu gwastraff heb awdurdod..... Tudalen 60

**Argymhelliad 23.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i adolygu'r trethi am waredu gwastraff heb awdurdod ac yn sefydlu trefniant rhannu refeniw i gefnogi gweithgareddau Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol o ran gorfodi a chydymffurfio..... Tudalen 60

**Argymhelliad 24.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi costau sefydlu diwygiedig ychwanegol ar gyfer Awdurdod Cyllid Cymru a'r costau dirwyn i ben ar gyfer Treth Dirlenwi'r DU pan fyddant ar gael.  
.....Tudalen 60

# 01. Cyflwyniad

1. Ar 28 Medi 2016, cyflwynodd Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol (Ysgrifennydd y Cabinet), y Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru)<sup>1</sup> (y Bil) a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef.<sup>2</sup> Gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad<sup>3</sup> ar y Bil yn y Cyfarfod Llawn ar 29 Tachwedd 2016.

2. Yn ei gyfarfod ar 15 Tachwedd 2016, cytunodd Pwyllgor Busnes y Cynulliad Cenedlaethol i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) i ystyried ei egwyddorion cyffredinol (Cyfnod 1), yn unol â Rheol Sefydlog 26.9.<sup>4</sup> Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol erbyn 10 Mawrth 2017.<sup>5</sup>

## Cylch Gorchwyl

3. Cytunodd y Pwyllgor ar y cylch gorchwyl a ganlyn ar gyfer y gwaith craffu Cyfnod 1 ar y Bil:

Ystyried –

- egwyddorion cyffredinol y Bil a'r angen am ddeddfwriaeth;
- unrhyw rwystrau posibl rhag rhoi'r darpariaethau hyn ar waith ac a yw'r Bil yn eu hystyried;
- a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil;
- goblygiadau ariannol y Bil (fel y'u nodir ym Mhennod 6 o'r Memorandwm Esboniadol);
- priodoldeb y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (fel y nodir ym Mhennod 5 o'r Memorandwm Esboniadol);
- a yw egwyddorion Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu polisi a deddfwriaeth treth datganoledig wedi cael eu dilyn, sef:
  - bod yn deg i fusnesau ac unigolion sy'n eu talu;
  - bod yn syml, â rheolau eglur sy'n ceisio sicrhau bod costau cydymffurfio a gweinyddu cyn lleied â phosibl;
  - cefnogi twf a swyddi, a fydd, yn ei dro, yn helpu i fynd i'r afael â thlodi; a
  - darparu sefydlogrwydd a sicrwydd i drethdalwyr.
- y diffiniad o 'warediad trethadwy' a 'deunyddiau cymwys';
- y darpariaethau o ran sut y bydd y dreth yn cael ei chyfrifo, gan gynnwys pwysau trethadwy deunyddiau a'r disgownt yng nghyswllt cynnwys dŵr;
- gweithredu cyfraddau treth, ac a yw'r rhain yn cadw'r hyblygrwydd i ymdrin â newidiadau dilynol ar lefel Cymru a'r DU;

---

<sup>1</sup> [Y Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi \(Cymru\)](#)

<sup>2</sup> [Y Memorandwm Esboniadol](#)

<sup>3</sup> [Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol: Y Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi \(Cymru\), 29 Tachwedd 2016](#)

<sup>4</sup> [Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rheol Sefydlog 26.9](#)

<sup>5</sup> [Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Busnes, Adroddiad ar yr amserlen ar gyfer ystyried y Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi \(Cymru\), Tachwedd 2016](#)

- yr esemptiadau arfaethedig;
- y rhyddhadau arfaethedig;
- cynnwys gwarediadau o wastraff heb awdurdod mewn mannau ar wahân i safleoedd tirlenwi awdurdodedig;
- arolygu safleoedd at ddibenion canfod atebolrwydd person o ran y Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi, a rhannu gwybodaeth rhwng Awdurdod Cyllid Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol;
- y dyletswyddau ar drethdalwyr i wneud taliadau ac i dalu cosbau, a llog o dan rai amgylchiadau;
- sut y mae cwmnïau, partneriaethau a chyrrff anghorfforedig yn cael eu trin o ran y darpariaethau a'r cyfrifoldeb dros gydymffurfio; a
- sefydlu Cynllun Cymunedau Tirlenwi fel cynllun grant yn hytrach na chredyd treth a'i ddatblygu y tu allan i'r Bil.

## Dull y Pwyllgor o weithredu

4. Mae'r Pwyllgor wedi clywed tystiolaeth lafar gan nifer o dystion. Mae rhestr o'r tystion llafar yn Atodiad A. Cyhoeddodd y Pwyllgor ymgynghoriad cyhoeddus hefyd a oedd yn gwahodd unrhyw un â diddordeb yn narpariaethau'r Bil i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i lywio gwaith y Pwyllgor. Mae rhestr o'r 20 ymateb i'r ymgynghoriad i'w gweld yn Atodiad B.

5. Hefyd, aeth y Pwyllgor ar ymweliad â safle tirlenwi Lamby Way yng Nghaerdydd i'w helpu i ystyried y Bil. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i staff Cyngor Caerdydd am hwyluso'r ymweliad hwnnw.



Mike Hedges AC a Nick Ramsay AC yn y safle tirlenwi.



Mark Reckless AC, David Rees AC a Simon Thomas AC yn trafod y bont bwysu gyda Gareth Ffoulkes, y Rheolwr Tirlenwi.

6. Mae'r adroddiad hwn yn nodi casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor, yn seiliedig ar dystiolaeth a ddaeth i law yn ystod yr ymchwiliad.

7. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i bawb sydd wedi cyfrannu at ei waith. Mae'r Pwyllgor hefyd yn ddiolchgar i Daniel Greenberg, arbenigwr cyfreithiol, am ei gymorth wrth drafod y pwnc cymhleth hwn.

## Trafodaethau Pwyllgorau eraill ar y Bil

- 8.** Clywodd Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol dystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet ar briodolrwydd y darpariaethau yn y Bil sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth ar 9 Ionawr 2017. Cyflwynodd ei gasgliadau ym mis Mawrth 2017.
- 9.** Gan fod y Bil hwn yn cynnwys nifer o bwerau i wneud rheoliadau, mae'r Pwyllgor yn trafod hyn ym mhennod 4 o'r adroddiad hwn.



## 02. Y cefndir

10. Rhoddodd Deddf Cymru 2014<sup>6</sup> gymhwysedd deddfwriaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru dros feysydd trethi datganoledig ac roedd yn gwneud darpariaeth i Dreth Dirlenwi'r DU gael ei datgymhwyso yng Nghymru.

11. Bydd y Bil hwn yn cyflwyno Treth Gwarediadau Tirlenwi yng Nghymru yn lle Treth Dirlenwi'r DU o fis Ebrill 2018 ymlaen. Dyma'r trydydd darn o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â datganoli'r pwerau treth yn Neddf Cymru 2014. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol:

---

“Mae'r ddeddfwriaeth hon yn gysylltiedig â Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer casglu a rheoli trethi datganoledig gan gynnwys sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru (“ACC”). Mae'r Bil hefyd yn gysylltiedig â Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 12 Medi 2016, sydd â'r bwriad o gyflwyno treth newydd yn lle Treth Dir y Dreth Stamp yng Nghymru a mesurau i fynd i'r afael ag osgoi trethi datganoledig.”<sup>7</sup>

---

12. Mae Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016<sup>8</sup> yn darparu ar gyfer sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru (ACC). Hwn yw'r awdurdod a fydd yn gyfrifol am gasglu a rheoli'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi, fel y nodir yn adran 2(2) o'r Bil.

### Cymhwysedd deddfwriaethol

13. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol:

---

“Mae Adran 107 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu cymhwysedd deddfwriaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ('y Cynulliad') wneud deddfau ar gyfer Cymru a elwir yn Ddeddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae Adran 108 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu bod darpariaeth yn un o Ddeddfau'r Cynulliad o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad os yw'n ymwneud ag un neu fwy o'r pynciau a restrir o dan unrhyw un o'r penawdau yn Rhan 1 o Atodlen 7 o'r Ddeddf honno ac nad yw'n rhan o unrhyw un o'r eithriadau a restrir yn y Rhan honno o'r Atodlen (o dan y pennawd hwnnw neu o dan unrhyw un o'r penawdau hynny), ac nad yw'n gymwys heblaw mewn perthynas â Chymru nac yn rhoi, gosod, addasu neu ddileu (nac yn rhoi pŵer i roi, gosod, addasu neu ddileu) swyddogaethau y gellir eu harfer heblaw mewn perthynas â Chymru.

Mae paragraff 16A o Atodlen 7 yn nodi'r pwnc canlynol y caiff y Cynulliad ddeddfu arno:

#### Treth 16A

Trethi datganoledig (fel y'u diffinnir yn adran 116A(4)).

---

<sup>6</sup> [Deddf Cymru 2014](#)

<sup>7</sup> Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 1.2

<sup>8</sup> [Deddf Casglu a Rheoli Trethi \(Cymru\) 2016](#)

---

Mae Adran 116A(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu bod treth a bennir yn Rhan 4A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn cael ei diffinio fel treth ddatganoledig. Mae Rhan 4A yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad wneud darpariaeth mewn perthynas â threth ar warediadau i safleoedd tirlenwi (adran 116N), a threth ar drafodiadau sy'n cynnwys buddiant mewn tir (adran 116L)."<sup>9</sup>

---

**14.** Cyhoeddodd y Llywydd ddatganiad<sup>10</sup> ar 28 Tachwedd 2016 yn dweud bod darpariaethau'r Bil, yn ei barn hi, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

### Ymgynghori cyn deddfu

**15.** Yn ystod gwanwyn 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ynghylch "Datblygu Treth Gwarediadau Tirlenwi", a oedd yn cwmpasu:

- cyfraddau treth a gwarediadau trethadwy;
- cynigion ar gyfer gwella'r drefn gydymffurfio a gorfodi;
- opsiynau i symleiddio a moderneiddio'r drefn o weinyddu'r dreth;
- a ddylid defnyddio cyfran o dderbyniadau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi i wella lles cymunedau, a sut y gellid gwneud hynny.<sup>11</sup>

**16.** Yn ôl y Memorandwm Esboniadol:

---

"Wrth ddatblygu Treth Gwarediadau Tirlenwi i Gymru, mae Llywodraeth Cymru wedi cymhwyso ei hegwyddorion ar gyfer datblygu polisi a deddfwriaeth dreth ddatganoledig i wneud y canlynol:

- bod yn deg i fusnesau ac unigolion sy'n eu talu;
  - bod yn syml, â rheolau eglur sy'n ceisio sicrhau bod costau cydymffurfio a gweinyddu cyn lleied â phosibl;
  - cefnogi twf a swyddi, a fydd, yn ei dro, yn helpu i fynd i'r afael â thlodi; a
  - darparu sefydlogrwydd a sicrwydd i drethdalwyr."<sup>12</sup>
- 

### Fframwaith Cyllidol ar gyfer Cymru

**17.** Mae'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn un o amryw drethi y bwriedir eu datganoli i Gymru, sy'n cynnwys y Dreth Trafodiadau Tir. Byddai'r ffrydiau trethi hyn yn rhoi ffynhonnell uniongyrchol o gyllid i Lywodraeth Cymru, a hwnnw'n gyllid sy'n annibynnol ar grant bloc Cymru. O ganlyniad, bydd addasiad yn cael ei wneud i'r grant bloc drwy'r model Cymaradwy a amlinellir yng nghytundeb y fframwaith cyllidol<sup>13</sup> y cytunodd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru arno ym mis Rhagfyr 2016. Yn ystod ei ddatganiad llafar ar y fframwaith cyllidol, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fel a ganlyn:

---

<sup>9</sup> Y Memorandwm Esboniadol, paragraffau 2.1-2.4

<sup>10</sup> [Datganiad y Llywydd, 28 Tachwedd 2016](#)

<sup>11</sup> [Llywodraeth Cymru, Datblygu Treth Gwarediadau Tirlenwi, Chwefror 2015](#)

<sup>12</sup> Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.20

<sup>13</sup> [Y Fframwaith Cyllidol, Rhagfyr 2016](#)

---

“Wrth i Fil Cymru symud ymlaen drwy Senedd y DU, mae'r Prif Weinidog wedi bod yn glir y byddai'n rhwystr sylweddol i gefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Bil Cymru pe na bai modd i ni ddod i gytundeb â Llywodraeth y DU ar drefniant cyllido teg, hirdymor i Gymru. Rwy'n credu bod y fframwaith cyllidol y cytunwyd arno gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys yn mynd i'r afael â'r pryder hwnnw. Mae'n cynnig cam ymlaen yn y ffordd yr ariennir Cymru, gan ystyried y pwerau treth newydd a fydd yn cael eu datganoli yn 2018, ac yn paratoui'r ffordd ar gyfer datganoli cyfraddau treth incwm Cymru yn 2019.”<sup>14</sup>

---

**18.** Bydd y model Cymaradwy yn cymhwyso ffactor gymaradwy ar gyfer y dreth dirlenwi er mwyn pennu didyniadau o 2018-19 ymlaen. Y ffigurau diweddaraf fydd yn cael eu defnyddio i bennu'r ffactor gymaradwy hon adeg datganoli, ond yn seiliedig ar ystadegau Cyllid a Thollau EM 2015-16, y ffactor gymaradwy ar gyfer y dreth dirlenwi fyddai 87%. Disgwylir i'r refeniw o'r dreth dirlenwi ostwng ymhen amser. Mae rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer treth dirlenwi Cymru, a gyhoeddwyd gyda Datganiad yr Hydref 2016, yn amcangyfrif y byddai'r refeniw yn disgyn o £35 miliwn yn 2016-17 i £23 miliwn erbyn 2021-22.

---

<sup>14</sup> Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol – Datganiad Llafar: Y Fframwaith Cyllidol, 17 Ionawr 2017

### 03. Egwyddorion cyffredinol

19. Mae'r Bil yn sefydlu'r fframwaith cyfreithiol, gweinyddol a gweithredol i ddisodli Treth Dirlenwi'r DU yng Nghymru. Mae Treth Dirlenwi'r DU ar hyn o bryd yn dreth ar gael gwared ar ddeunydd fel gwastraff trwy ei roi mewn safleoedd tirlenwi. Cyflwynwyd Treth Dirlenwi'r DU ym 1996 fel elfen allweddol i sbarduno newid mewn ymddygiad amgylcheddol trwy roi cymhelliant i ddargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi, gan ailgylchu, aildefnyddio ac adennill mwy o wastraff. Ers i'r dreth gael ei chyflwyno mae wedi cyfrannu at ostyngiad sylweddol yng nghyfran y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi, a chynnydd mewn cyfraddau ailgylchu. Yng Nghymru gwelwyd cyfanswm y tunelli o wastraff a anfonwyd i safleoedd tirlenwi yn gostwng 52 y cant rhwng 2001 a 2013.<sup>15</sup>

#### Diben y Bil

20. Eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet fod angen y Bil oherwydd:

“Os na fyddai Bil ar gael, ym mis Ebrill 2018 ni fyddai'r refeniw sy'n dod ar hyn o bryd i Gymru yn dod yn y dyfodol. Dyna'r pwrpas cyntaf: sicrhau y refeniw. Yr ail bwrpas, wrth gwrs, yw tanlinellu neu gryfhau ein hamcanion yn y maes amgylcheddol.”<sup>16</sup>

21. O ran yr effaith bosibl ar refeniw, mae'r Memorandwm Esboniadol<sup>17</sup> yn cynnwys manylion rhagolwg y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer refeniw blynyddol Cymru ar gyfer treth ar warediadau i safleoedd tirlenwi tan 2021-22:

	£ miliwn						
	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22
Rhagolwg Cymru	34	35	30	27	25	24	23

(Tabl: Rhagolygon y dreth dirlenwi yng Nghymru)<sup>18</sup>

22. Gan gydnabod bod swm y trethi a gesglir yn gostwng wrth i'r Llywodraeth gyrraedd ei nod o leihau swm y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fel a ganlyn:

“Rydym ni eisiau sicrhau'r refeniw, achos bod hynny'n bwysig i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, ond nid pwrpas hwn yw codi refeniw; y pwrpas yw i wneud pethau yn wahanol yn y maes tirlenwi.”<sup>19</sup>

#### Cysondeb â Threth Dirlenwi'r DU

23. Ar hyn o bryd mae dwy haen i Dreth Dirlenwi'r DU: y gyfradd safonol (sydd wedi codi o £7 y dunnell yn 1996-7 i £84.40 y dunnell yn 2014-15); a chyfradd dreth is ar gyfer deunyddiau cymwys penodol<sup>20</sup> sef £2.65 y dunnell.

<sup>15</sup> Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.14

<sup>16</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Rhagfyr 2016, paragraff 26

<sup>17</sup> Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 10

<sup>18</sup> Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol: Rhagolwg Trethi Datganoledig, Tachwedd 2016

<sup>19</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Rhagfyr 2016, paragraff 37

<sup>20</sup> Deunyddiau cymwys: Creigiau a phridd, deunyddiau ceramig neu goncrid, mwynau, slagiau ffwrnais, lludw, cyfansoddion anorganig actifedd isel, calsiwm sylffad, calsiwm hydrocsid a heli. (Cyllid a Thollau EM, Hysbysiad Ecseis LFT1: a general guide to Landfill Tax, 4.2).

**24.** Yn y Memorandwm Esboniadol, sonnir bod Treth Dirlenwi'r Alban, a ddisodlodd Treth Dirlenwi'r DU ar 1 Ebrill 2015, "yn gyson â'r Dreth Dirlenwi yn gyffredinol, ond mae'n gwneud rhai newidiadau i sut y caiff y dreth ei gweinyddu, gan gynnwys ymestyn cwmpas y dreth i warediadau gwastraff" ac mae'n cadarnhau fod yr Alban wedi pennu cyfraddau treth safonol ac is ar yr un lefel â Threth Dirlenwi'r DU.<sup>21</sup>

**25.** Yn ôl y Memorandwm Esboniadol:

"Un flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru yw trosglwyddiad didrafferth i LDT yn 2018. Er na fydd cyfraddau LDT yn cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru tan hydref 2017, yn barod ar gyfer gweithrediad y dreth ym mis Ebrill 2018, cydnabyddir bod cysondeb yn bwysig yn y maes hwn. Un maes penodol o bryder ymhlith rhanddeiliaid oedd yr effaith ar fusnesau pe bai gwahaniaethau pendant rhwng y cyfraddau treth a godir yng Nghymru ac yn Lloegr, wrth i sawl un amlygu'r potensial ar gyfer twristiaeth gwastraff lle mae'n rhatach i gludwyr gwastraff deithio ymhellach ar draws ffiniau gwledydd i waredu gwastraff."<sup>22</sup>

**26.** Roedd y rhai a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor yn gyffredinol o blaid yr angen i ddeddfu yn y maes y hwn.

**27.** Dywedodd cynrychiolwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y byddai problemau difrifol i Gymru oni fyddai ganddi fesur cyfatebol, a soniodd y gallai twristiaeth gwastraff fod yn broblem fawr.<sup>23</sup> Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hefyd yn gefnogol i drefn o gyfraddau safonol ac is o dreth dirlenwi, tebyg i'r hyn sydd yn Lloegr, ac roedd o blaid cyflwyno darpariaethau newydd ar gyfer gwarediadau heb awdurdod a bod potensial i wneud cyfraniad mawr i'r ymdrechion ehangach i wella'r amgylchedd.<sup>24</sup>

**28.** Cydnabu Cymdeithas Amgylcheddol y DU fod gwersi wedi'u dysgu o brofiad cynlluniau presennol Treth Dirlenwi'r DU a Threth Dirlenwi'r Alban, a dywedodd hefyd:

"It's quite useful that it's consolidated; so, under the old regime, there was the Finance Act, and there were various pieces of regulation that were enacted on an ad hoc basis, sometimes in response to case law. So, it's in one useful place."<sup>25</sup>

**29.** Dywedodd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr:

"To help taxpayers and provide certainty, the WRA should publish a statement that reconciles these Bill provisions to those of the Landfill Tax provisions (as set out in the Finance Act 1996 as amended). It should identify the material differences between the two taxes, in particular the new provisions found in Part 4 on taxable disposals at unauthorised landfill sites. Some of this

<sup>21</sup> Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.18

<sup>22</sup> Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.21

<sup>23</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2017, paragraff 159

<sup>24</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2017, paragraff 167

<sup>25</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2017, paragraff 519



information is already included in the Explanatory Memorandum but it would be helpful to have a full summary available on the public record.”<sup>26</sup>

**30.** Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet i roi crynodeb o’r prif wahaniaethau rhwng y Dreth Gwarediadau Tirlenwi a Threth Dirlenwi’r DU,<sup>27</sup> a gynhwyswyd maes o law yn ei lythyr at y Pwyllgor ar 15 Chwefror 2017.<sup>28</sup>

### **Newidiadau i Dreth Dirlenwi’r DU**

**31.** Ym mis Rhagfyr 2016, cyhoeddodd Cyllid a Thollau EM Fil Cyllid drafft 2017. Mae Cymal 47 o’r Bil Cyllid drafft yn diwygio Rhan 3 o Ddeddf Cyllid 1996, sy’n ymwneud â Threth Dirlenwi’r DU. Mae’n bosibl y bydd Cyllid a Thollau EM yn gwneud newidiadau i Dreth Dirlenwi’r DU cyn mis Ebrill 2018 a fyddai’n berthnasol i weithredwyr safleoedd tirlenwi yng Nghymru.

**32.** Cyfeiriodd Cyfoeth Naturiol Cymru at fwrriad Cyllid a Thollau EM i wneud newidiadau i Dreth Dirlenwi’r DU ym mis Ebrill 2017, fel rhan o Ddeddf Gyllid 2017. Os bydd y newidiadau hyn yn gymwys i safleoedd tirlenwi yng Nghymru, mae’n bosibl y bydd angen dwy gyfres bwysig o newidiadau mewn blynyddoedd olynol. Mynegodd Cyfoeth Naturiol Cymru bryder y byddai gwrthwynebiad i hyn, neu y byddai’n achosi dryswch, ac y dylid ei ystyried yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.<sup>29</sup>

**33.** Soniodd Deloitte hefyd fod y newidiadau arfaethedig i Dreth Dirlenwi’r DU yn her, o ran y graddau y dylid adlewyrchu yng Nghymru unrhyw newidiadau a wneir yn Lloegr.<sup>30</sup>

**34.** Dywedodd cynrychiolwyr Biffa a Cory Environmental y byddent yn cydymffurfio â’r newidiadau ond y byddai’n symlach i gwsmeriaid a’u systemau TGCh fod ag un gyfres o newidiadau.<sup>31</sup>

**35.** Mewn llythyr at y Pwyllgor Cyllid ar 4 Ionawr 2017, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd Ariannol y Trysorlys ynghylch newidiadau posibl i’r ddeddfwriaeth ar Dreth Dirlenwi’r DU a fyddai’n berthnasol i weithredwyr safleoedd tirlenwi yng Nghymru, gan nodi y byddai’n datgelu ei ddadansoddiad cyn gynted ag y byddai Cyllid a Thollau EM wedi cyhoeddi’r is-ddeddfwriaeth berthnasol.<sup>32</sup>

**36.** Pan ofynnwyd iddo am y wybodaeth ddiweddaraf am effaith y newidiadau arfaethedig i Dreth Dirlenwi’r DU ar y sefyllfa yng Nghymru, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet nad oedd eto wedi cael ateb gan Gyllid a Thollau EM i’r llythyr a anfonodd ar 4 Ionawr 2017. Aeth rhagddo i ddweud:

“...we are unconvinced that this is the right moment to change the way the whole system operates. We don’t think Scotland intends to change the system, and we’re not tempted to do it in Wales. Until we see the colour of the regulations, it’s difficult for us to make a fully-informed assessment of what the position would be one way or another. HMRC has assured officials that the changes will have no practical effect as far as Wales is concerned, because

<sup>26</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, **LDT09, Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr**

<sup>27</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Chwefror 2017, paragraff 31

<sup>28</sup> **Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, 15 Chwefror 2017**

<sup>29</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, **LDT 08, Cyfoeth Naturiol Cymru**

<sup>30</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, **LDT 14, Deloitte LLP**

<sup>31</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 25 Ionawr 2017, paragraff 196

<sup>32</sup> **Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, 4 Ionawr 2017**

although the legislation may be changed, the scope and the administration of the tax will not. So, I'm bound to consider it, Chair. The timing is not helpful.”<sup>33</sup>

## Safbwynt y Pwyllgor

**37.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r gefnogaeth gan randdeiliaid ar gyfer y Bil ac yn cydnabod bod angen i Lywodraeth Cymru gymryd camau i gynnal y llif refeniw, yn wyneb y ffaith fod y dreth yn cael ei datganoli a'r addasiadau canlyniadol i'r grant bloc. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor yn cydnabod yr angen am ddeddfwriaeth rhag i dirlenwi fod y dewis rhataf yng Nghymru o ran rheoli gwastraff. Byddai hyn yn tanseilio polisïau amgylcheddol eraill ac yn annog twristiaeth gwastraff.

**38.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod codi tâl am waredu gwastraff mewn safleoedd tirlenwi wedi bod yn effeithiol wrth newid ymddygiad o ran lleihau'r gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi. Roedd hefyd yn amlwg bod rhanddeiliaid yn awyddus i gael cysondeb rhwng Cymru a Lloegr i hwyluso'r broses drosglwyddo ac i osgoi canlyniadau anfwriadol, yn enwedig o ran cludo gwastraff ar draws y ffin rhwng Cymru a Lloegr.

**39.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu nad yw'n glir beth yw'r sefyllfa o ran y newidiadau i Dreth Dirlenwi'r DU ac mae'n siomedig nad yw Llywodraeth y DU wedi ystyried yr effaith bosibl ar Gymru pe gwneir newidiadau i ddeddfwriaeth y DU ar yr adeg hon, gan fod hynny'n debygol o beri dryswch ac ansefydlogrwydd i randdeiliaid ledled Cymru.

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru).

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i gael sicrwydd na fydd y newidiadau arfaethedig i Fil Cyllid 2017 yn effeithio'n andwyol ar weithredwyr safleoedd tirlenwi yng Nghymru cyn mis Ebrill 2018.

---

<sup>33</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Chwefror 2017, paragraff 50

## 04. Y pwerau yn y Bil i wneud rheoliadau

40. Mae'r Bil yn cynnwys 29 darpariaeth sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau, gan gynnwys 19 darpariaeth sy'n caniatáu iddynt ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol.
41. Mae Adran 14 yn cynnwys pwerau i wneud rheoliadau i ragnodi:
- Y gyfradd safonol (14(3));
  - Y gyfradd is (14(6));
  - Cyfraddau gwahanol ar gyfer disgrifiadau gwahanol o ddeunydd (14(7)).

### Pwerau i wneud rheoliadau

42. Er eu bod yn fodlon â'r manylion ar wyneb y Bil a'r hyn sy'n debygol o fod yn y rheoliadau maes o law, roedd y Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff a Phwyllgor Cynghori ar Ailgyrchu yr Awdurdodau Lleol yn pwysleisio bod angen sicrhau yr ymgynghorir â rhanddeiliaid perthnasol cyn y caiff is-ddeddfwriaeth ei gwneud.<sup>34</sup>
43. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn croesawu'r hyblygrwydd a fyddai'n cael ei ddarparu drwy ganiatáu i newidiadau gael eu gwneud drwy is-ddeddfwriaeth er mwyn ymateb yn gyflym i newidiadau sy'n digwydd mewn mannau eraill yn y DU, wrth iddi ddod yn fwy cyfarwydd â'i rôl a'r cyd-destun yng Nghymru.<sup>35</sup>
44. Adleisiwyd hyn gan gynrychiolwyr o Biffa a Cory Environmental, a oedd yn credu bod y Bil wedi'i ddrafftio'n dda. Roeddynt yn cefnogi'r darpariaethau sy'n caniatáu i fanylion gael eu darparu drwy gyfrwng rheoliadau, gan eu bod yn credu y byddai hyn yn fwy hyblyg.<sup>36</sup>
45. Fodd bynnag, barn ICAEW oedd y dylai darpariaethau treth sylweddol cael eu nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol a bod cyfle wedi'i golli i roi'r mwyafrif helaeth o ddarpariaethau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi mewn deddfwriaeth sylfaenol.<sup>37</sup>
46. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ei bod yn anodd bod â barn am rai darpariaethau oherwydd byddai'r manylion yn cael eu darparu mewn rheoliadau.<sup>38</sup>
47. Dywedodd y Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff ei bod yn anodd penderfynu a yw'r Bil yn bodloni egwyddorion Llywodraeth Cymru ar gyfer trethi datganoledig oherwydd bydd angen asesiad arall o gydymffurfiaeth â'r egwyddorion hyn mewn perthynas â'r rheoliadau o dan y Bil hwn.<sup>39</sup>
48. O ran rhoi'r cyfraddau treth ar wyneb y Bil, nid oedd cynrychiolwyr y gweithredwyr safleoedd tirlenwi o'r farn y byddai hyn yn gwneud gwahaniaeth, ond byddai mantais mewn rhoi mwy o sicrwydd i'w cwsmeriaid.<sup>40</sup>

### Tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet

49. Eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet fel a ganlyn:

<sup>34</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2017, paragraffau 160 ac 164

<sup>35</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2017, paragraff 311

<sup>36</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 25 Ionawr 2017, paragraff 160

<sup>37</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, [LDT 09, Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr](#)

<sup>38</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, Y Pwyllgor Cyllid, [LDT 02, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru](#)

<sup>39</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, [LDT 11, Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff](#)

<sup>40</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2017, paragraffau 260-263

---

“...it is a Bill that [...] takes the opportunity to draw together in one place, and as a piece of specific Welsh legislation, a pattern that, since the original Bill was passed in 1996, has grown up, as legislation tends to, in all sorts of disparate ways. So, if you are operating in this field under present legislation, you are relying on primary legislation, secondary legislation, Schedules, directions, notices, guidance, and it’s scattered in many different places. So we have definitely taken the opportunity here to draw it all together, to clarify and to improve, we believe, the state of the law in this area, and certainly to make it more accessible and workable, as far as users of this legislation will be concerned.”<sup>41</sup>

---

**50.** Yn ystod tystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet i’r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi ceisio rhoi cymaint o fanylion ag y bo modd ar wyneb y Bil. Eglurodd fod angen rheoliadau mewn meysydd sy’n destun adolygiadau rheolaidd, sy’n dechnegol eu natur ac mewn meysydd sy’n newydd a lle mae technoleg yn newid. Ychwanegodd mai rheswm arall am nifer y pwerau gwneud rheoliadau oedd bod y Bil yn ddarn o ddeddfwriaeth ariannol ac nad oedd gan Gymru fil cyllid blynyddol.<sup>42</sup>

**51.** Pan ofynnodd y Pwyllgor Cyllid pam nad oedd mwy o ddarpariaethau wedi’u cynnwys ar wyneb y Bil, atebodd Ysgrifennydd y Cabinet fel a ganlyn:

---

“...if you do put more things on the face of the Bill, it’s important to have flexibility to keep the Bill live, and the way to do that is to take powers to recreate the law through regulation-making powers, and that’s why there are 29 of them on the face of this Bill. So, there is a tension there. We have tried to respond to the call to put more things on the face of the Bill, but if we are to maintain the law in a way where it can respond to things that are happening outside Wales, or where there are developments in the field of technology—that’s why we’ve done it in the way that we have.

...

all but two of the regulation-making powers that we take to amend primary legislation are through the affirmative procedure. That means that those regulations have to come in front of the Assembly, they have to be accompanied by a regulatory impact assessment of their own, and the changes cannot be made without the direct guaranteed oversight of the legislature itself.”<sup>43</sup>

---

**52.** Mewn gohebiaeth ynghylch y gallu i bennu deunyddiau cymwys drwy is-ddeddfwriaeth, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod hyn “yn gyson â’r drefn yn y DU ac yn yr Alban.”<sup>44</sup>

**53.** Yn ei dystiolaeth aeth Ysgrifennydd y Cabinet rhagddo i ddweud:

---

<sup>41</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Rhagfyr 2016, paragraff 29

<sup>42</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion, 9 Ionawr 2017, paragraffau 18, 27-29 a 34

<sup>43</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Chwefror 2017, paragraffau 12 ac 15

<sup>44</sup> Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, 4 Ionawr 2017

---

“... there are three key distinguishing principles that we’ve used for trying to distinguish between primary legislation and regulation powers. If something is subject to regular review, so listing of qualifying materials, for example, we’ve left that to regulations because it needs updating, potentially, regularly. Where something is new, the testing of fine material and loss-on-ignition testing, well, that’s something that’s only recently been embarked upon in Scotland and England, and we think we will learn from the experience so we leave that to regulations. And when there is a great deal of technical detail, for example in how credit powers will be operated, we think that’s better done through regulation. But other than in that relatively small numbers of examples, the Bill puts a great deal of material that is currently not in primary legislation onto the face of this Bill.”<sup>45</sup>

---

**54.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet nad oedd yn awyddus i roi’r cyfraddau trethi cychwynol ar wyneb y Bil:

---

“... We could put something on the face of this Bill on the basis that that was providing certainty, but it could turn very quickly into being a spurious certainty, because rates could change across our border, and then, in order to maintain consistency, I’d have to be coming forward to change the rates that are on the face of the Bill. So, I think the way that we construct it here is the right way.”<sup>46</sup>

---

**55.** Pan bwyswyd ef am ragor o wybodaeth am hyn, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

---

“I am very happy to give that general confirmation, but I understand the need for consistency and similarity. I’m not prepared to go as far as saying, at this stage, that the rates will be the same. I think there is a difference there. As I say, I could say today, and put them on the face of the Bill, that they are the same, and then they could change across our border while this Bill was going through the Assembly, and they wouldn’t be the same after all.”<sup>47</sup>

---

**56.** O ran y pŵer i wneud rheoliadau i ddiffinio cyfraddau trethi lluosog, esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet fel a ganlyn:

---

“At the moment, it’s a power that we think of as potentially being there for the future. There would be practical issues we would have to work through with landfill operators because the IT systems that they have are designed to cope with the current way. We have two rates at the moment and this Bill proposes a third, unauthorised rate. If we were to go down the route of a more fine-tuned set of rates, they would face issues of updating their IT systems to cope with that. So, we want to do it with the sector. While I don’t have immediate intentions in this area, reading the evidence that you’ve received has made me

---

<sup>45</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Chwefror 2017, paragraff 10

<sup>46</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Chwefror 2017, paragraff 19

<sup>47</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Chwefror 2017, paragraff 24



think that this may be a power that's got more potential in it than maybe I had realised starting off on this journey.”<sup>48</sup>

**57.** Pan ofynnwyd iddo a oedd Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw waith i asesu am ba hyd y gall fod angen treth ar dirilenwi yng Nghymru, atebodd Ysgrifennydd y Cabinet fel a ganlyn:

“...we have to, as a Government, be alert to the inevitability that, at some point in the future, the costs of collecting the tax will outweigh the tax itself. So, we are making some projections into the future, but we are reliant on the OBR for doing so.”<sup>49</sup>

**58.** Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet i dynnu sylw'r Cynulliad at ffigurau'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol bob tro y byddant yn cael eu diweddarau.<sup>50</sup>

## Safbwynt y Pwyllgor

**59.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod rhesymau am y pwerau i wneud rheoliadau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil, ac mae'n nodi bod y rhan fwyaf o randdeiliaid yn fodlon â'r darpariaethau. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn siomedig nad oedd rhagor o fanylion wedi'u cynnwys ar wyneb y Bil, fel rhestr o ddeunyddiau cymwys, y diffiniad o swm bach a darpariaethau ar gyfer rhyddhad o ddyledion drwg. Cyfeirir at bob un ohonynt yn nes ymlaen yn yr adroddiad. Noda'r Pwyllgor fod Ysgrifennydd y Cabinet yn cyfeirio at y sefyllfa yn yr Alban a Lloegr o ran pwerau i wneud rheoliadau. Fodd bynnag, mae o'r farn na ddylai'r hyn a wneir mewn manau eraill yn y DU benderfynu ar y camau a gymerir yng Nghymru. Mae ail-ddefnyddio elfennau o ddeddfwriaeth sydd i'w cael mewn manau eraill yn rhywbeth y mae'r Pwyllgor yn cyfeirio ato mewn man arall yn yr adroddiad hwn.

**60.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r honiad gan Ysgrifennydd y Cabinet y bydd y rhan fwyaf o'r darpariaethau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Fodd bynnag, ni ellir diwygio offerynnau statudol pan fyddant yn cael eu hystyried gan y Cynulliad. Y dewis moel fyddai gan y Cynulliad, felly, yw gwrthod offeryn statudol drwy bleidlais neu dderbyn darpariaethau llai boddhaol. Byddai cynnwys darpariaethau ar wyneb y Bil yn gyfle i Aelodau'r Cynulliad graffu'n fanwl arno a'i ddiwygio.

**61.** Noda'r Pwyllgor fod Ysgrifennydd y Cabinet wedi galw am hyblygrwydd ac yn ôl yr hyn a ddywedodd dyna pam y mae'r Bil yn cynnwys cynifer o bwerau i wneud rheoliadau. Wrth ystyried y ddadl hon, mae'r Pwyllgor wedi cyfeirio at egwyddorion Llywodraeth Cymru ei hun o ddarparu sefydlogrwydd a sicrwydd i fusnesau.<sup>51</sup> Mae'n amlwg i'r Pwyllgor fod system dreth sefydlog yn hollbwysig i fusnesau yng Nghymru ac nad yw'r lefel hon o hyblygrwydd gyda phwerau i wneud rheoliadau yn bodloni egwyddorion Llywodraeth Cymru ei hun, ac fe allai fod yn ergyd i hyder busnesau. Mae'r Pwyllgor yn credu'n gryf y dylai Llywodraeth Cymru osgoi newidiadau dianghenraid i'r ddeddfwriaeth drethi, ac mae hyn yn cynnwys newidiadau i reoliadau lle gallai darpariaethau gael eu cynnwys ar wyneb y Bil.

**62.** At hynny, mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi dweud nad yw'r cyfraddau wedi'u cynnwys ar wyneb y Bil am nad oes gan y Cynulliad Fil Cyllideb Blynyddol. Ar ôl i Ddeddf Cymru 2017 gael Cydsyniad Brenhinol, bydd gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol i gyflwyno Bil Fframwaith Ariannol, a fyddai'n arwain at Fil Cyllid Blynyddol. Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylid mynd ar drywydd hyn

<sup>48</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Chwefror 2017, paragraff 114

<sup>49</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Chwefror 2017, paragraff 35

<sup>50</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Chwefror 2017, paragraff 37

<sup>51</sup> <http://llyw.cymru/docs/caecd/publications/161128-LDT-leaflet-cy.pdf>

yn frwd, fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor Cyllid yn y Pedwerydd Cynulliad.<sup>52</sup> Caiff Llywodraeth Cymru newid y cyfraddau treth drwy'r weithdrefn gadarnhaol, ac felly nid oes dim i atal Llywodraeth Cymru rhag rhoi manylion y cyfraddau ar wyneb y Bil.

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried y darpariaethau ar wyneb y Bil a'r darpariaethau a gaiff eu gweithredu drwy reoliadau. Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylid cynnwys rhagor o fanylion ar wyneb y Bil, gan gynnwys y cyfraddau trethiant arfaethedig, neu fan lleiaf fod y cyfraddau arfaethedig yn cael eu cyhoeddi cyn 1 Hydref 2017.

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i weithio â'r Pwyllgor i gyflwyno bil fframwaith ariannol cyn gynted ag y bo modd, er mwyn gallu cyflwyno bil cyllideb / cyllid blynyddol.

---

<sup>52</sup>Arferion Gorau o ran y Gyllideb Rhan 2 – Cynllunio gweithdrefnau cyllidebol newydd a'u rhoi ar waith

## 05. Rhan 2 – Y dreth a gwarediadau trethadwy

**63.** Mae Rhan 2 o'r Bil yn sefydlu treth gwarediadau tirlenwi, a fydd yn cael ei chodi ar warediadau trethadwy, ac a gaiff ei chasglu a'i rheoli gan Awdurdod Cyllid Cymru. Mae hefyd yn diffinio gwarediadau trethadwy, gwaredu deunydd trwy dirlenwi, safleoedd tirlenwi awdurdodedig a thrwyddedau amgylcheddol, a gwaredu deunydd fel gwastraff, ac yn nodi'r sawl sy'n gyfrifol am waredu a'r gweithgarwch tirlenwi sydd i'w drin fel gwarediadau trethadwy.

### Gwarediadau trethadwy

**64.** Mae Adran 3 o'r Bil yn diffinio'r cysyniad o warediad trethadwy drwy bennu pedair amod a ddiffinnir yn fanylach yn adrannau 4, 5 a 6.

**65.** Roedd ICAEW, Pwyllgor Cyngori ar Ailgyrchu yr Awdurdodau Lleol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU yn cefnogi'r diffiniad o 'warediad trethadwy' yn y Bil, a dywedodd Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU fel a ganlyn:

“...the definition provided by clause 3 of the Bill is clear and the use of four conditions in order to determine whether a taxable disposal is made should provide a clear checklist for enforcement officers and operators of landfill sites. Clause 3 can only be fully understood by reference to clauses 4, 5 and 6, which provide definitions of the conditions provided in clause 3.”<sup>53</sup>

### Adran 6 – Gwaredu deunydd fel gwastraff

**66.** Tynnodd y tystion sylw at adran 6 fel maes a oedd yn peri pryder. Dywedodd Deloitte fod y Bil yn cynnwys diffiniad tebyg i'r hyn sydd yn neddfwriaeth y DU, er mwyn penderfynu a yw deunydd yn cael ei ystyried yn wastraff, ac felly a yw'n warediad trethadwy. Dywed deddfwriaeth y DU yr ystyrir bod y deunydd yn wastraff at ddibenion y dreth dirlenwi os bydd y sawl sy'n ei waredu yn gwneud hynny â'r *bwriad* o gael gwared arno.<sup>54</sup> Eglurodd Deloitte fod deddfwriaeth bresennol y DU ym maes tirlenwi wedi bod yn destun ymglyfreitha proffil uchel:

“HMRC v Waste Recycling Group Limited (2008) EWCA Civ 849, which found that putting material to use within a landfill site meant that there could not have been an intention to discard it as waste and therefore the material was not part of a taxable disposal.”<sup>55</sup>

**67.** Nododd Deloitte fod Cyllid a Thollau EM wedi ceisio mynd i'r afael â'r bwlch ymddangosiadol hwn yn y diffiniad trwy gyflwyno deddfwriaeth (o dan Ddeddf Cyllid 1996) sy'n rhagnodi'r defnydd o ddeunydd a fyddai bob amser yn drethadwy hyd yn oed os oes gan y deunydd swyddogaeth ddefnyddiol ar y safle tirlenwi. Argymhellodd Deloitte y dylid ystyried mabwysiadu diffiniad tebyg yng Nghymru.

“In light of this litigation and the perception that defining taxable material by reference to what is in the mind of the person discarding it is difficult to establish empirically, HMRC consulted stakeholders during 2016 and on 5 December 2016 published plans to remove the waste criteria from the definition

<sup>53</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, [LDT 05, Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU](#)

<sup>54</sup> Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 18

<sup>55</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, [LDT 14, Deloitte LLP](#)

of taxable disposal.....Therefore unless similar changes are introduced in Wales, there will be a fundamental difference between definitions of taxable disposals in Wales and those in England....it will be important to consider the potential impact it may have on behaviour in the waste sector and whether the difference has the potential to draw waste into Wales or drive it out of Wales.”<sup>56</sup>

**68.** Ond dywedodd Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU:

“The definition of ‘disposal of material as waste’ (cl.6) utilises the familiar concept of “intention to discard” (utilised in the EU Waste Framework Directive); historically this concept has generated litigation but is now fairly settled as a legal concept. Clause 6(2) creates an inferred intention to discard from the fact that material is deposited in a landfill disposal area; this represents a common sense approach to the issue which should reduce the scope for protracted legal argument. However, there might be cases where it is argued that the inference has been rebutted by contrary evidence.”<sup>57</sup>

**69.** Nid oedd Deloitte ychwaith yn glir beth yw'r ‘casgliad’ yn adran 6(2):

“Section 6(2) states that whether or not a person has the intention to discard material may be ‘inferred from the circumstances of its disposal’ – i.e. if the material is deposited in a landfill then it is likely to be discarded as waste. In general, establishing tax liability by inference is challenging and we wonder whether this section provides any practical assistance.”<sup>58</sup>

**70.** Roedd Tata Steel yn cwestiynu sut y byddai'r diffiniad yn gweithredu'n ymarferol, gan gynnwys sut y byddai Llywodraeth Cymru yn diffinio 'bwriad'.<sup>59</sup>

**71.** Roedd cynrychiolwyr y gweithredwyr safleoedd tirlenwi hefyd o'r farn y byddai'n haws pe gellid nodi hyn yn benodol yn hytrach na'i awgrymu gan y gallai hynny arwain at ddehongliadau gwahanol:

“...it would be easier if it was stipulated rather than by inference because what one company views as being right and proper, another company potentially might view it slightly differently, and you get differences in interpretation.”<sup>60</sup>

## **Adran 7 – Person sy'n gyfrifol am warediad**

**72.** Nododd Deloitte fod adegau pan fydd rhywun ar wahân i weithredwr cydnabyddedig y safle yn rheoli pa ddeunydd sy'n cael ei waredu yn y safle, gyda chaniatâd llawn gweithredwr y safle. Dywedodd Deloitte nad yw'r Bil fel y mae wedi'i ddrafftio yn cydnabod 'rheolwr' fel rhywun sydd ag unrhyw gyfrifoldeb am y dreth dirlenwi<sup>61</sup>sy'n ddyledus ar ddeunydd a adawyd tra bod y safle tirlenwi o dan ei reolaeth:

“...under the Bill as drafted, the site operator holds all responsibility for this material even though the site operator may have little detailed knowledge of the

<sup>56</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, [LDT 14, Deloitte LLP](#)

<sup>57</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, [LDT 05, Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU](#)

<sup>58</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, [LDT 14, Deloitte LLP](#)

<sup>59</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, [LDT 17, Tata Steel UK Ltd](#)

<sup>60</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 25 Ionawr 2017, paragraff 198

<sup>61</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, [LDT 14, Deloitte LLP](#)

quantum and weight of material being deposited by a site controller. We wonder whether a ‘controller’ of waste entering a landfill site should also be recognised by the Bill so as to ensure that such a person is held to account for the tax (perhaps jointly and severally with the site operator as is the case in extant legislation in England) and also to remove from the site operator a risk of exposure to tax on operations for which he has little detailed knowledge.”<sup>62</sup>

**73.** Fodd bynnag, nid oedd cynrychiolwyr y gweithredwyr safleoedd tirlenwi o’r farn bod hwn yn fater i boeni amdano gan fod ganddynt reolaeth lawn ar eu safleoedd ac yn credu bod y cyfrifoldeb ar yr ysgwyddau iawn.<sup>63</sup>

## Tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet

**74.** Yng nghyfarfod y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar 9 Ionawr 2017 dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y diffiniad o warediad trethadwy yn un o’r meysydd lle mae ymgyfreitha cyson yn ei gylch, ac mae hyn, felly, yn un o’r rhesymau pam y cadwyd y pŵer i addasu’r adran hon:<sup>64</sup>

“If, as a result of litigation, the definition of a taxable disposal needs to be amended, I thought it was worth keeping the power in the Bill against that day. Fourthly, and maybe most importantly, this power is available to Ministers in England and we hadn’t included the power in this Bill for Welsh Ministers, then we wouldn’t be able to act to take account of the change that they had made. For all those reasons, although it is a closely balanced argument, I felt that it just tipped into the area of keeping it rather than excluding it, albeit that it’s not a power that has had any very great use so far.”<sup>65</sup>

**75.** Mewn ymateb i’r pryderon a godwyd ynghylch y ‘casgliad’ yn adran 6(2), pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet mai barn Llywodraeth Cymru yw nad yw’r Bil yn sefydlu atebolrwydd treth drwy gasgliad.<sup>66</sup> Esboniodd:

“Section 3 of the Bill sets out four conditions that need to be met in order for there to be a taxable disposal. One of those - in a carefully crafted way and taking account of some of the case law that I’ve just outlined to you- does have as a test whether there was an intention to discard. That’s the inference issue that I think Deloitte was getting at. That is one of four tests, and it allows a more objective understanding of whether, when something ends up in a landfill void, the intention of the disposer was that a disposal should have taken place.”<sup>67</sup>

**76.** Ymhelaethodd cyfreithiwr Llywodraeth Cymru ar hyn:

<sup>62</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, [LDT 14, Deloitte LLP](#)

<sup>63</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 25 Ionawr 2017, paragraffau 204 ac 205

<sup>64</sup> Adran 4(3) Caiff rheoliadau addasu ystyr gwaredu deunydd drwy dirlenwi (gan gynnwys drwy ddiwygio’r adran hon neu unrhyw ddeddfiad arall sy’n ymwneud â’r dreth).

<sup>65</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, [LDT 14, Deloitte LLP](#)

<sup>66</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Chwefror 2017, paragraff 54

<sup>67</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Chwefror 2017, paragraff 55



---

“Section 6(1) is the test of whether there is an intention to discard, and then subsections (2) and (3) are sort of assisting with the understanding of that. So, (3) is then going on to say that if somebody is making temporary use of material or deriving a benefit from it, such as the production of gas, that doesn’t mean there can’t be an intention to discard as well. So, they’ve been very carefully and specifically drafted to address the issues that we’re aware of to try and reduce the risk of further litigation.

...

We think it makes our position clearer in terms of where we would be coming from as a tax collection authority on those cases. And I think it could also be relevant if you think about unauthorised disposals as well that don’t apply in the UK. So, if you think about a lorry load of black bags found in a secluded area, this would allow you to say, ‘We could infer from the circumstances of that deposit of material that there’s been an intention to discard it’”<sup>68</sup>

---

**77.** O ran y pryderon a fynegwyd gan Deloitte nad yw’r Bil yn cydnabod ‘rheolwr’ fel rhywun sydd ag unrhyw gyfrifoldeb am y dreth dirlenwi dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fel a ganlyn:

---

“...our investigation suggests that it doesn’t happen in any landfill sites in Wales and we weren’t able to discover from any landfill operators any intention to move in this direction either. However, the Scottish legislation takes a regulation-making power to make provision for controllers to be liable for tax where they exist—so, we have done the same, but it’s a futureproofing part of the Bill.”<sup>69</sup>

---

## Safbwynt y Pwyllgor

**78.** Mae’r Pwyllgor yn nodi’r pryderon a godwyd gan dystion y gallai Adran 6 (Gwaredu deunydd fel gwastraff) o’r Bil achosi dryswch. Noda fod adrannau 6(2) a 6(1) yn cyfeirio at achos pan fo person yn bwriadu gwaredu a’r hyn y gellir ei gasglu o amgylchiadau’r gwaredu, ac mae’n credu bod hyn yn ddryslyd ac o ddim cymorth. Mae elfen o ailadrodd wrth geisio dod i’r casgliad a oes bwriad i fwrw deunydd o’r neilltu. Mae bwriad i fwrw deunydd o’r neilltu os caiff y deunydd ei ddodi mewn ‘man gwarediadau tirlenwi’, ond diffinnir ‘man gwarediadau tirlenwi’ yn adran 93(1) fel “man ar safle tirlenwi lle y gwneir gwarediadau tirlenwi, neu fan lle y gwnaed gwarediadau o’r fath neu fan lle y bydd gwarediadau o’r fath yn cael eu gwneud”. Yn eu tro, diffinnir ‘gwarediadau tirlenwi’ fel “gwarediad deunydd (a) drwy dirlenwi, a (b) fel gwastraff”. I allu gwybod a yw’r casgliad yn gymwys rhaid gwybod a yw’r lle yn fan lle caiff pethau eu bwrw o’r neilltu fel gwastraff. Fodd bynnag, er mwyn gwybod hynny, rhaid gwybod a yw’r casgliad yn gymwys.

**79.** Nid yw’r Pwyllgor wedi’i ddarbwyllo gan y dystiolaeth mewn perthynas â 6(2); roedd yr enghraifft o fwrw bagiau o’r neilltu mewn man diarffordd yn enghraifft amlwg ac nid oedd yn cynorthwyo’r Pwyllgor i lunio barn ar hyn. Mae’r Pwyllgor o’r farn y gellid symleiddio’r diffiniadau ynghylch gwaredu gwastraff, ac nid yw’n glir i ba raddau y mae Llywodraeth Cymru wedi talu sylw i ddyfarniadau diweddar y Llys Apêl (Patersons of Greenoakhill Ltd v Cyllid a Thollau EM [2016] EWCA Civ 1250) ynghylch y darpariaethau yn adrannau 40 a 64 o Ddeddf Cyllid 1994.

---

<sup>68</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Chwefror 2017, paragraffau 61 ac 63

<sup>69</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Chwefror 2017, paragraff 66

**80.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod Ysgrifennydd y Cabinet wedi canfod nad oes unrhyw reolwyr yng Nghymru. Fodd bynnag, roedd tystiolaeth Deloitte, er nad yw'n nodi ai enghraifft o Gymru ynteu enghraifft o Loegr oedd yr un a roddodd, yn dangos y gallai problemau godi yn achos gweithredwyr a rheolwyr. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod adran 88 (Pŵer i osod atebolrwydd eilaidd ar reolwyr safleoedd tirlenwi awdurdodedig) o'r Bil yn darparu pŵer i Lywodraeth Cymru wneud rheoliadau i osod atebolrwydd eilaidd.

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried y diffiniad o waredu deunydd fel gwastraff yn adran 6 (Gwaredu deunydd fel gwastraff) er mwyn bod yn fwy eglur a syml.

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd ynghylch gweithredwyr a rheolwyr i fodloni ei hun a'r Pwyllgor na fydd hyn yn broblem yng Nghymru.

### Gwarediadau esempt a rhyddhad rhag treth

**81.** Mae adrannau 9 i 11 o'r Bil yn ymwneud â gwarediadau esempt, a diffinnir dau fath o warediad sydd wedi'u hesemptio rhag talu'r dreth, sef mynwentydd anifeiliaid anwes a gwarediadau lluosog ar yr un safle. Mae adrannau 25 i 32 yn ymwneud â rhyddhadau rhag treth.

**82.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn egluro bod y rhyddhadau yn y Bil yn weddol gyson â deddfwriaeth y DU heblaw lle bo'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi diffinio nifer o eithriadau'r Dreth Dirlenwi fel rhyddhadau. O dan y system dreth bresennol caiff y rhain eu dosbarthu fel esemptiadau ac nid oes angen talu treth, ond mae'r Bil yn cynnig bod yr esemptiadau hyn yn cael eu dosbarthu fel rhyddhadau ac y bydd angen eu hawlio ar ffurflenni treth. Mae'r rhyddhadau yn cynnwys:

- Deunydd a dynnir o wely afon, o wely'r môr neu o wely dyfroedd eraill: Mae'r rhyddhad hwn yn berthnasol i waredu deunydd penodol a garthwyd;
- Deunydd sy'n deillio o fwyngloddio a chwarela: Ceir rhyddhad o ran gwaredu deunydd o'r fath os nad yw'r deunydd wedi bod yn destun unrhyw broses ar wahân neu wedi cael ei addasu'n gemegol, rhwng ei echdynnu a'i waredu;
- Ail-lenwi cyn-chwareli: Mae'r rhyddhad hwn yn gymwys ar gyfer gwaredu deunyddiau cymwys mewn rhai chwareli penodol y mae'n rhaid eu hail-lenwi o ganlyniad i ganiatâd cynllunio ac y caniateir iddynt, o dan eu trwydded amgylcheddol, dderbyn deunydd cymwys yn unig;
- Gwaith adfer safle: Rhaid i weithredwyr safleoedd tirlenwi wneud cais am y rhyddhad hwn cyn dechrau gwaith adfer safle, ac mae'r ddarpariaeth yn galluogi Awdurdod Cyllid Cymru i asesu'n llawn y deunydd a ddefnyddiwyd i adfer y safle.<sup>70</sup>

**83.** Cwestiynodd Deloitte pam mae rhai deunyddiau wedi'u dosbarthu'n esemptiadau ac eraill yn rhyddhadau, a dywedodd:

“It is not entirely clear to us why some tax free material is classified as relived from the tax in the Bill rather than exempt from the tax as in the extant legislation in England. Material falling into both categories will need to be reported in tax returns. We note that a relief is only available for relevant

<sup>70</sup> Y Memorandwm Esboniadol, tudalennau 111-113

disposals made at authorised landfill sites so we query whether the underlying reason here is to restrict tax free status for unauthorised sites. In the absence of any strategic aims we consider that tax free treatment might be applied through exemptions only.”<sup>71</sup>

**84.** Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru nad yw, ar hyn o bryd, yn goruchwyllo’r gweithgareddau a wneir ar safleoedd tirlenwi ac nad oes ganddi hawl i weld y wybodaeth berthnasol gan Gyllid a Thollau EM. Pan gaiff wybod am y gweithgareddau ac yn eu cymharu â’r cofnodion, mae Cyfoeth Naturiol Cymru o’r farn y bydd pethau’n newid.<sup>72</sup>

**85.** O ran dileu neu addasu’r esemptiadau presennol, dywed y Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff fod angen rhagor o eglurhad mewn perthynas â chwareli:

“The proposed reliefs are comprehensive; however, it is possible that the relief proposed for refilling former quarries might exclude many of the authorised landfill sites from payment of landfill disposal tax due to the fact that many of such sites were quarries and have conditions within the planning permission requiring the resultant void to be wholly or partially refilled. This matter should be examined to establish the impact of this issue”<sup>73</sup>

**86.** Cwestiynodd LARAC hefyd y rhyddhad a roddir i ddeunydd sy’n deillio o fwyngloddio a chwarela gan ddatgan nad yw’n helpu i sicrhau buddion amgylcheddol:

“In the UK household waste makes up approximately 8% of the total whereas mining and quarry waste is approximately 20% of the total. With the household waste stream now heavily regulated and subject to statutory targets and fines if these targets are missed, LDT is no longer a real policy driver in that area of waste. LDT could be a real policy driver for mining and quarry waste and so LARAC does not believe that the exemption in that instance is helping to deliver environmental benefits.”<sup>74</sup>

## Tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet

**87.** Eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet nad yw Llywodraeth Cymru yn gwybod sut y mae rhyddhadau yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd, ac mae’n awyddus i gasglu rhagor o ddata yn y maes hwn:

“...we will in future have much better data about some of these reliefs. We don’t have much sense, to be honest, of how these reliefs are used at the moment, and whether they are reliefs that we would think if as serving a direct public purpose.”<sup>75</sup>

**88.** Pan ofynnwyd iddo am y rhyddhadau a’r esemptiadau yn y Bil, atebodd Ysgrifennydd y Cabinet fel a ganlyn:

<sup>71</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, [LDT 14, Deloitte LLP](#)

<sup>72</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2017, paragraff 314

<sup>73</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, [LDT 11, y Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff](#)

<sup>74</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, [LDT 07, Pwyllgor Cynghori ar Ailgyrchu yr Awdurdodau Lleol](#)

<sup>75</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Rhagfyr 2016, paragraff 87

---

“...the principle that we have taken is that if you know you would never wish to charge for something, then we provide an exemption, because that means you don't have to, you know, provide paperwork for it, you don't have to—. So, in pet cemeteries, we know we never want pet cemeteries to be captured by landfill legislation, so we give an exemption for that. We've given an exemption in the case where a temporary use has been made of material. So, it's come through the gates of the landfill site, it's been taxed, it's been used temporarily as a road, and then it's going to go into landfill. Now, you could- without an exemption, it could be taxed twice, because it's now been moved and put into landfill. That's not our intention; we give an exemption for that. You need never fill in a form and tell us about it and things, because it's an exemption.”<sup>76</sup>

---

**89.** Gofynnwyd i Ysgrifennydd y Cabinet pam mae rhai o'r esemptiadau presennol wedi newid yn rhyddhadau, ac ateb ei swyddog oedd:

---

“...they're all called exemptions under the existing legislation, but some just say, 'These things won't be taxable if'; and some say, 'These things won't be taxable if you can satisfy HMRC of the following'. So, we've sort of divided those, basically, and said, 'These things just won't be within the scope of the tax, and won't be taxable disposals, so they'll be exemptions' and 'These things will be taxable, but you'll have to account for them on a tax return, and satisfy certain evidential requirements to claim them as a relief'. So, there's a clear distinction between what's expected of the taxpayer in each scenario.

...

I think what we're doing is trying to define quite clearly what we expect of the taxpayer in each circumstance. So, by calling them exemptions, they are outside of the scope of the taxpayer, we expect nothing, whereas the others, we expect a tax return and certain criteria to be met.”<sup>77</sup>

---

**90.** Aeth Ysgrifennydd y Cabinet rhagddo i ddweud:

---

“...policy purpose behind identifying some of these circumstances as reliefs is to make sure that we have a stronger set of insights into the way that those reliefs are being operated and claimed in the future, so that this Assembly can have oversight over any proposed changes to reliefs that a Government might want to bring forward in future. So, if I were sitting here, you'd be saying to me, 'Well, what evidence do you have?' I am saying to you today that, actually, because of the way the system has been, we don't have enough' but in a few years' time, that would be a question that someone would be better able to answer.”<sup>78</sup>

---

**91.** Esboniodd y swyddog a ddaeth gyda Ysgrifennydd y Cabinet y gall esemptiadau, yn y dyfodol, fod yn gymwys i warediadau heb awdurdod:

---

<sup>76</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Chwefror 2017, paragraff 139

<sup>77</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Chwefror 2017, paragraffau 145 ac 149

<sup>78</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Chwefror 2017, paragraff 160

---

“... you could have an exemption that applies in an unauthorised context—though, these two don’t - Whereas the reliefs only apply in that authorised context, because they’re more, filing a tax return, and producing evidence, which just couldn’t happen in an unauthorised context ... but the power to create new exemptions could apply to unauthorised.”<sup>79</sup>

---

**92.** O ran adran 11 gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch pam mae'r gair 'domestic' yn yr ymadrodd 'dead domestic pet'. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod yr ymadrodd wedi dod o'r ddeddfwriaeth gyfredol<sup>80</sup> ac na chafwyd unrhyw broblemau. Dywedodd y Pwyllgor nad yw'r ymadrodd cyfatebol yn y fersiwn Gymraeg o'r Bil yn cynnwys y gair 'domestic' ac mae'n sôn am *anifeiliaid anwes meirwyn* yn unig. Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet i ystyried hyn.<sup>81</sup>

**93.** O ran y rhyddhadau yn adran 26, gofynnwyd i Ysgrifennydd y Cabinet pam yr oedd y rhyddhad yn gymwys i ddeunydd a dynnir 'er budd mordwyaeth', ond nad yw'n gymwys i ddeunydd a dynnir i atal llifogydd. Atebodd swyddog yr Ysgrifennydd Cabinet fod hwn yr un math o ryddhad sydd eisoes yn bodoli yn neddfwriaeth y DU ar hyn o bryd ac y byddai'n croesawu budd arall a ddeuai yn sgil hynny, sef lleihau perygl llifogydd.<sup>82</sup>

**94.** Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet:

---

“As a secondary benefit of removal of debris for navigation purposes, you get flood protection benefits. As currently constructed, there is no relief if the primary purposes of the activity is flood prevention. I'm very willing to take that away and discuss it to see why that could be the case.”<sup>83</sup>

---

**95.** Cwestiynodd Ysgrifennydd y Cabinet y ffigurau a ddarparwyd gan y Pwyllgor Cynghori ar Ailgylchu yr Awdurdodau Lleol mewn perthynas â mwyngloddio a chwarela (adran 27) a dywedodd fod Llywodraeth Cymru o'r farn bod deunydd sy'n deillio o chwarela a mwyngloddio yn cyfrif am lai nag 1 y cant o gyfanswm y gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi.<sup>84</sup>

## Safbwynt y Pwyllgor

**96.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r rhesymau am ailddosbarthu rhai esemptiadau yn rhyddhadau ac mae'n fodlon â hyn. Fodd bynnag, mae o'r farn y gallai rhai meysydd beri dryswch.

**97.** Noda'r Pwyllgor esboniad Ysgrifennydd y Cabinet fod yr ymadrodd 'dead domestic pet' yn adran 11 (mynwentydd anifeiliaid anwes) wedi dod o'r ddeddfwriaeth gyfredol ond mae'n cwestiynu'r angen i gopïo'r ddeddfwriaeth hon gan fod yma gyfle i symleiddio'r gyfraith. Mae'n credu y dylid, wrth benderfynu codi diffiniadau o ddeddfwriaeth uniaith, ystyried a yw'r diffiniad yn gweithio ar gyfer deddfwriaeth ddwyieithog hefyd. Mae'r Pwyllgor o'r farn nad yw'r gair 'domestic' yn ychwanegu at y diffiniad ac o'r farn hefyd nad oes dim i'w golli drwy ddileu'r gair o destun Saesneg y Bil, a fyddai wedyn yn adlewyrchu'r diffiniad yn nhestun Gymraeg y Bil.

---

<sup>79</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Chwefror 2017, paragraffau 151 ac 153

<sup>80</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Chwefror 2017, paragraff 186

<sup>81</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Chwefror 2017, paragraff 188

<sup>82</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Chwefror 2017, paragraff 174

<sup>83</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Chwefror 2017, paragraff 178

<sup>84</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Chwefror 2017, paragraff 163

**98.** Nid yw'n glir i'r Pwyllgor ym mha amgylchiadau y gallai fod yn ddymunol i esmptiadau fod yn gymwys i warediadau heb awdurdod. Nid yw'n glir beth fyddai'r amgylchiadau a fyddai'n caniatáu esemptiad ar gyfer gwarediadau heb awdurdod.

**99.** Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylid diwygio adran 26 (Deunydd a dynnir o wely afon, o wely'r môr neu o wely dyfroedd eraill) i sicrhau bod deunydd a dynnir yn ystod gweithgareddau atal llifogydd yn ddarostyngedig i'r un rhyddhadau â deunydd a dynnir er budd mordwyaeth. Mae'n credu bod hon yn enghraifft arall lle na ddylai deddfwriaeth Cymru ailadrodd y darpariaethau yn neddfwriaeth Lloegr, pan fo cyfle i wella'r darpariaethau presennol.

**100.** Mewn perthynas â'r darpariaethau yn adran 26, mae'r Pwyllgor yn cwestiynu'r darpariaethau o dan is-adran (5) ynghylch deunydd sy'n cael ei 'dynnu drwy garthu neu mewn unrhyw fodd arall'. Mae'r Pwyllgor yn holi pam fod y ddarpariaeth hon wedi'i chynnwys, a ellir tynnu deunydd mewn unrhyw fodd, a pha botensial sydd yma ar gyfer camddealltwriaeth drwy gynnwys hyn yn y Bil.

**101.** Mae'r Pwyllgor o'r farn bod y gwahaniaethau yn y ffigurau a ddarparwyd gan Bwyllgor Cyngori ar Ailgylchu yr Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru, o ran deunyddiau sy'n deillio o fwyngloddio a chwarela, yn dangos y gallai dryswch godi ynghylch y darpariaethau a'r rhyddhadau a ganiateir o dan adran 27 (Deunydd sy'n deillio o fwyngloddio a chwarela) ac y dylid egluro hyn.

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried geiriad adran 11 (Mynwentydd anifeiliaid anwes) ynghylch gwaredu anifeiliaid anwes meirw, gan roi ystyriaeth benodol i symleiddio'r gyfraith a sicrhau cysondeb dwyieithog.

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn dal i fod yn ansicr ar ba achlysur y gallai esemptiad fod yn gymwys i warediad heb awdurdod ac mae'n argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu Pennod 3 o Ran 2 o'r Bil, gan ystyried sut y gallai esemptiadau fod yn gymwys i warediadau heb awdurdod yn y dyfodol.

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu adran 26 (Deunydd a dynnir o wely afon, o wely'r môr neu o wely dyfroedd eraill) er mwyn sicrhau bod deunydd a dynnir yn ystod gweithgareddau atal llifogydd yn ddarostyngedig i'r un rhyddhadau â deunydd a dynnir er budd mordwyaeth.

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu adran 27 (Deunydd sy'n deillio o fwyngloddio a chwarela) i sicrhau nad yw'n achosi dryswch ymysg rhanddeiliaid.



## 06. Rhan 3 – Gwarediadau trethadwy a wneir ar safleoedd tirlenwi awdurdodedig

**102.** Mae Rhan 3 yn nodi'r trefniadau ar gyfer gwarediadau trethadwy a wneir ar safleoedd tirlenwi awdurdodedig, fel rhwymedigaeth i dalu, y dull o gyfrifo'r dreth, y ddyletswydd i gofrestru ag Awdurdod Cyllid Cymru a sut i gyfrif am y dreth, gan gynnwys rhyddhad rhag y dreth.

### Adran 14 – Cyfrifo'r dreth sydd i'w chodi ar warediad trethadwy

**103.** Mae adran 14 yn diffinio bod swm y dreth a godir ar y gwarediad i gael ei gyfrifo drwy luosi pwysau trethadwy'r deunydd mewn tunelli, naill ai â'r gyfradd safonol neu â'r gyfradd is yn achos deunyddiau cymwys.

**104.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn sôn mai un o brif bryderon y rhanddeiliaid oedd yr effaith ar fusnesau pe byddai gwahaniaethau sylweddol rhwng cyfraddau treth Cymru a Lloegr.<sup>85</sup>

**105.** Dywedodd Deloitte y byddai gwahaniaethau yn y cyfraddau treth rhwng Lloegr a Chymru yn effeithio ar y manau lle caiff gwastraff ei waredu. Dywedodd:

“As the tax is geographical – revenue arising according to the location of the landfill site – differences between the structure of Landfill Disposals Tax in Wales and Landfill Tax in England and differences in the approaches adopted by the different revenue agencies, can affect the level of waste being brought to landfill sites in Wales (on the border with England) and the revenue arising from the tax.”<sup>86</sup>

**106.** Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y byddai'n annheg i fusnesau pe byddai gwahaniaethau sydyn a sylweddol rhwng cyfraddau treth Cymru a chyfraddau treth Lloegr.<sup>87</sup>

**107.** Dywedodd cynrychiolwyr y gweithredwyr safleoedd tirlenwi eu bod o'r farn y dylai cyfraddau Cymru a Lloegr barhau'n debyg.<sup>88</sup> Dywedodd Biffa fod y diwydiant yn sensitif iawn i brisiau a bod gwahaniaeth o 50 ceiniog y dunnell yn y cyfraddau yn cael effaith ar ymddygiad cwsmeriaid.<sup>89</sup>

**108.** Soniodd nifer o sefydliadau fod materion amgylcheddol hefyd yn rheswm dros gael cyfraddau treth tebyg. Yn ôl yr RSPB:

“If Welsh Landfill Tax rates are not comparable when introduced this would become the cheapest option for waste disposal and would not result in the behavioural change desired in reducing waste to landfill. A lower rate of tax compared to England could result in ‘waste tourism’ and increased transportation of waste into Wales. This will cause an increase in the disamenity to local communities due to higher levels of noise and pollution and increase of carbon emissions.”<sup>90</sup>

<sup>85</sup> Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.21

<sup>86</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, [LDT 14, Deloitte LLP](#)

<sup>87</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, Y Pwyllgor Cyllid, [LDT 02, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru](#)

<sup>88</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 25 Ionawr 2017, paragraffau 252 a 254

<sup>89</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 25 Ionawr 2017, paragraff 254

<sup>90</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, [LDT 03, RSPB Cymru](#)

**109.** Adleisiwyd y pwynt hwn gan Coed Cadw<sup>91</sup> a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.<sup>92</sup>

**110.** Cododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fater ynghylch y ddarpariaeth o dan adran 14(7) sy'n pennu y caiff rheoliadau "ragnodi cyfraddau gwahanol ar gyfer disgrifiadau gwahanol o ddeunydd". Yn ôl Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru: "whilst the presumption is that there will be one higher rate and one lower rate the potential is there to specify multiple rates, which would be more complex".<sup>93</sup>

**111.** Er bod y Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff a Phwyllgor Cyngori ar Ailgylchu yr Awdurdodau Lleol yn cytuno y gallai cyfraddau lluosog ychwanegu cymhlethdod, nodwyd y dylid meddwl yn ofalus am hyn, gan y gallai ddod â buddion amgylcheddol.<sup>94</sup>

## **Adrannau 15 ac 16 – Deunyddiau cymwys a chymysgeddau cymwys o ddeunyddiau**

**112.** Mae adran 15 yn diffinio'r deunyddiau a fydd yn gymwys ar gyfer y gyfradd is, a fydd yn cael ei rhagnodi mewn rheoliadau.

**113.** Mae adran 16 yn diffinio'r profion y bydd angen i gymysgeddau o ddeunyddiau eu bodloni er mwyn bod yn gymwys ar gyfer cyfradd is y dreth.

**114.** Mae adran 16(1) yn cyfeirio at "swm bychan o un deunydd anghymwys neu ragor". Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod y Bil yn ceisio ei gwneud yn fwy eglur beth sy'n cael ei ystyried yn swm derbyniol o ddeunydd anghymwys (deunydd cyfradd safonol) mewn llwyth cymysg os yw'r llwyth yn mynd i gael ei drethu ar y gyfradd is. Mae'r Memorandwm yn egluro bod y Bil yn cyflwyno prawf 'bychan ac atodol' i ddeddfwriaeth sylfaenol wrth benderfynu ar y gyfradd dreth ar gyfer llwyth cymysg. Mae'r Memorandwm yn dadlau mai'r rheswm am gynnwys hyn mewn deddfwriaeth sylfaenol yw y dylai cyfaint a phwysau'r deunydd cyfradd safonol, o fewn y llwyth cymysg, fod yn ddibwys ac y dylai ei bresenoldeb fod yn ddamweiniol ac yn rhywbeth na ellir ei osgoi yn hytrach na bod wedi'i gynnwys yn fwriadol.<sup>95</sup>

**115.** Mae adran 16(3) yn gwneud darpariaeth ar gyfer pŵer i wneud rheoliadau i ddiffinio swm 'bychan ac atodol' fel canran ragnodedig o ddeunyddiau anghymwys. Nodir yn y Memorandwm Esboniadol fod y pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio i ddarparu hyblygrwydd ac ymateb i ddatblygiadau technolegol neu unrhyw gamddefnydd o'r egwyddor llwythi cymysg.<sup>96</sup>

**116.** Holodd Tata Steel pryd y byddai'r rhestr o ddeunyddiau cymwys y cyfeirir atynt yn Adran 15 ar gael ac a fyddai Llywodraeth Cymru yn dilyn Gorchymyn Deunyddiau Cymwys 2011 a ddefnyddir ar hyn o bryd o dan ddeddfwriaeth y DU.<sup>97</sup>

**117.** Dywedodd Deloitte ei fod yn cefnogi'r pŵer yn y Bil i wneud rheoliadau i ddiffinio pa ganran sy'n gyfystyr â swm 'bychan'. Dywedodd:

"Taking a view on what is 'small' and 'incidental' will be difficult for taxpayers and for the WRA but given the inevitability that many loads will contain a mix of materials a subjective test of this type is unavoidable. We therefore endorse

<sup>91</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, [LDT 10, Coed Cadw](#)

<sup>92</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, [LDT 12, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol](#)

<sup>93</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, Y Pwyllgor Cyllid, [LDT 02, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru](#)

<sup>94</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2017, paragraff 199

<sup>95</sup> Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.62

<sup>96</sup> Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.65

<sup>97</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, [LDT 17, Tata Steel UK Ltd](#)

the inclusion in the Bill (s16 (3)) of a provision that regulations can prescribe what percentage constitutes a ‘small’ amount. Determining a percentage by weight or volume will also be challenging for taxpayers but this measure will provide greater clarity than that provided by the subjective terms ‘small’ and ‘incidental’ – particularly where there are disputes.”<sup>98</sup>

**118.** Mewn perthynas â'r defnydd o'r ymadrodd 'swm bychan', dywedodd FCC Environment fod angen rhagor o waith ar y diffiniad ond y dylai'r canrannau fod yn gyson â Lloegr a'r Alban.<sup>99</sup>

**119.** Gwnaeth Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU sylwadau ar hepgor trothwy penodol i ddiffinio swm bychan a dywedodd:

“Natural Resources Wales has argued against the use of a threshold on the basis that it would encourage less efficient methods for segregating waste and might encourage some operators to deliberately mix wastes to achieve the limit set. While there is some force in this argument, it is contended that the issue is finely balanced; the argument advanced by NRW is premised on the assumption that the threshold will be relatively high (the example given is 10 per cent), a considerably lower threshold might not be problematic. Further, requirement 3 of clause 16 provides that a mixture will not qualify for the lower rate of tax where non-qualifying materials have been deliberately mixed with qualifying material. In theory, this provision would alleviate the problem of operators mixing wastes up to the threshold (although issues of evidence and proof would arise). Finally, a threshold approach would be more objective than the current use of the ambiguous test of ‘small quantity’. Ultimately, UKELA will support the approach which has the greatest potential to reduce landfill. As such before any future regulations designed to introduce a threshold (as provided for by clause 16(3)) are enacted, we would advocate the development of an evidence base to ascertain how the ‘small quantity’ test is administered in practice.”<sup>100</sup>

**120.** Mynegodd y Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff hefyd bryderon am yr ymadrodd 'swm bychan', gan ddweud:

“... how do you determine the amount of materials? Is it by weight or is it by volume? ‘Small quantity’ is mentioned, but what does that actually mean? There’s a huge difference between weight, for example, and volume. If you think of polystyrene in a load, then when it’s in weight there’s a heck of a lot of it. So, we certainly have that issue to raise.”<sup>101</sup>

**121.** Aeth y Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff rhagddo i ddweud: “if you have a threshold, then I think it has to be defined; it has to be quantifiable; it has to be measurable”.<sup>102</sup>

<sup>98</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, [LDT 14, Deloitte LLP](#)

<sup>99</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, [LDT 16, FCC Environment](#)

<sup>100</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, [LDT 05, Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU](#)

<sup>101</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2017, paragraff 155

<sup>102</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2017, paragraff 212

**122.** Dywedodd Biffa y byddai'n croesawu mwy o eglurder ar y diffiniad o bach, gan nad oes gan Gyllid a Thollau EM ddiffiniad ohono ar hyn o bryd. Dywedodd Biffa ei fod fel arfer yn dibynnu ar y cysylltiad â'r cynhyrchwr gwastraff ar ddechrau'r contract i bennu natur y llwyth cymysg ac os oes unrhyw amheuaeth bydd yn cynnal ymweliad safle neu'n gwneud dadansoddiad cemegol. Dywedodd Biffa y byddai'n ddefnyddiol pe bai Awdurdod Cyllid Cymru yn cyhoeddi enghreifftiau o ddeunyddiau lle y dylai deunydd fod ar y gyfradd safonol, neu lle y byddai'n gymwys ar gyfer y gyfradd is.<sup>103</sup>

**123.** Roedd Cory Environmental yn annog pwyll yn erbyn pennu mesurau na ellir eu mesur, gan esbonio ei bod yn anodd pennu'r gyfran o ddeunydd cyfradd uwch pan fydd lori wedi ei gwagio ei lwyth, gan ychwanegu y bydd diffinio 'bach' bob amser yn broblem ac na fydd rhoi canran benodol yn y rheoliadau yn helpu.<sup>104</sup>

## **Adrannau 18 - 20 Pwysau trethadwy deunydd**

**124.** Mae adran 20(1) yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwr safle tirlenwi bennu pwysau'r gwarediad trethadwy **cyn** i warediad gael ei wneud, drwy bwysu'r deunydd ar bont bwysu.

**125.** Mae'r Bil yn cydnabod y gall fod amgylchiadau lle nad yw'n bosibl defnyddio pont bwysu, er enghraifft, mae'n bosibl nad oes pont bwysu ar safle safle tirlenwi neu fod y bont bwysu wedi torri. Felly, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i weithredwr safle tirlenwi wneud cais i Awdurdod Cyllid Cymru am gymeradwyaeth i ddefnyddio dull arall o bennu pwysau deunydd mewn gwarediad trethadwy, megis cyfrifiad yn seiliedig ar uchafswm y pwysau a ganiateir ar gyfer cynhwysydd.

**126.** Yn neddfwriaeth yr Alban, oni chytunir fel arall â pherson awdurdodedig neu berson a bennir gan Revenue Scotland, rhaid i ddeunydd gael ei bwysu gan ddefnyddio pont bwysu. Os bydd pont bwysu yn torri (ac os byddai defnyddio unrhyw bont bwysu arall yn achosi costau afresymol i'r person cofrestradwy), rhaid i'r person cofrestradwy gysylltu â Revenue Scotland i wneud trefniadau eraill ar gyfer pwysu deunydd i'w waredu.

**127.** Hefyd, yn neddfwriaeth yr Alban, os defnyddir pont bwysu (yn hytrach na phan fo dull amgen na hynny wedi'i gytuno neu ei bennu ar gyfer pwysu), rhaid pwysu'r deunydd ar yr adeg y caiff ei waredu.<sup>105</sup> (Yn yr Alban, pan gytunwyd ar ddull o bwysu, neu y pennwyd dull o bwysu, gellir gwneud darpariaeth wahanol am yr amser y mae'r pwysau i'w penderfynu).

**128.** Wrth ymweld â'r safle tirlenwi yn Lamby Way, Caerdydd, cafodd y Pwyllgor gyfle i weld y bont bwysu lle mae cerbyd sy'n cynnwys gwastraff yn cael ei bwysu cyn mynd i mewn i'r safle tirlenwi. Ar ôl gwaredu'r deunydd roedd y cerbyd yn cael ei bwysu eto wrth fynd allan o'r safle tirlenwi. Felly, yn achos y safle tirlenwi penodol hwn ni ellid penderfynu ar bwysau'r deunydd i'w waredu tan *ar ôl* i'r cerbyd gael gwared â'r gwastraff.

**129.** Nid oes pont bwysu ym mhob safle tirlenwi yng Nghymru. Hefyd, dywedodd cynrychiolwyr o Biffa a Cory Environmental nad oedd pontydd pwysu yn gweithio'n iawn bob tro.

## **Tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet**

**130.** Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar y Bil, eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet fod cysylltiad rhwng pennu cyfraddau treth a deunyddiau cymwys y codir treth arnynt ar y gyfradd is:

<sup>103</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 25 Ionawr 2017, paragraff 241

<sup>104</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 25 Ionawr 2017, paragraff 219

<sup>105</sup> [Deddf Treth Dirlenwi \(yr Alban\) 2014](#)

---

“Beth sy’n berthnasol i’r bobl sy’n gweithio yn y maes yw gwybod beth sydd ar y rhestr a faint rŷm ni’n mynd i drethu a phethau. Nid wyf i’n mynd i wneud y penderfyniadau yna tan hydref y flwyddyn yma. I fi, bydd yn fwy defnyddiol i’r busnesau, ond hefyd i’r bobl yn y Cynulliad sy’n craffu ar bopeth, i gael y ddau beth gyda’i gilydd achos maen nhw’n mynd law yn llaw â’i gilydd... Beth maen nhw (busnesau) wedi ei ddweud wrthym ni yw eu bod nhw’n hapus gyda’r pethau sydd yn y Bil ar hyn o bryd.”<sup>106</sup>

---

**131.** Yn ystod y dystiolaeth i’r Pwyllgor Cyllid, dywedodd y swyddog a oedd yno gydag Ysgrifennydd y Cabinet:

---

“The list of qualifying materials will be set out in secondary legislation, and that will be brought forward under the affirmative procedure, so you will be able to have a look at it then. The existing list you can already see—it’s the Landfill Tax (Qualifying Material) Order 2011—and we’ll be looking at that list in terms of setting our own list.”<sup>107</sup>

---

**132.** O ran pam mae’r rhestr o ddeunyddiau cymwys i gael ei phennu mewn rheoliadau, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet mewn gohebiaeth â’r Pwyllgor: “mae pennu deunyddiau cymwys drwy is-ddeddfwriaeth yn gyson â’r drefn yn y DU ac yn yr Alban”.<sup>108</sup>

**133.** Pan ofynnwyd iddo a yw’n fwriad ganddo ddiffinio swm ‘bychan ac atodol’ fel canran ragnodedig o ddeunyddiau anghymwys, dywedodd yr Ysgrifennydd y Cabinet:

---

“I don’t have any immediate intention to trigger that power in the Bill that would allow a percentage to be identified to calibrate the ‘small and incidental’ test. It is there in case we find that the six tests that are there already, and their subdivisions, don’t do the trick, and to see whether that will be helpful. The closely balanced nature of the argument would mean that, if we were to think of doing it, we would only do it with a further, very careful, stakeholder consultation, weighing up—sorry, not ‘weighing up’... deciding whether or not the balance of arguments comes down in favour of using it.”<sup>109</sup>

---

**134.** Pan holwyd Ysgrifennydd y Cabinet am y gofyniad yn adran 20(1) i bennu pwysau deunydd ‘cyn’ iddo gael ei waredu, dywedodd:

---

“Our formulation just reflects our view of what normal practice is in the field, and the normal practice is that material, on entering the landfill site, is weighed on a weighbridge prior to it being taken to the void where the taxable disposal is made. Our form of words is designed to reflect that prevailing practice.”<sup>110</sup>

---

**135.** Holodd y Pwyllgor Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch y dystiolaeth a welodd yn safle tirlenwi Caerdydd, o ran y ffordd y defnyddiwyd y bont bwysu, a dywedodd:

---

<sup>106</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion, 9 Ionawr 2017, paragraffau 58 a 60

<sup>107</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Rhagfyr 2016, paragraff 95

<sup>108</sup> Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, 4 Ionawr 2017.

<sup>109</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Chwefror 2017, paragraffau 104 ac 106

<sup>110</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Chwefror 2017, paragraff 206

---

“I’m aware that, in some sites, some vehicles may be weighed on the way in and on the way out so that the weight of the vehicle is excluded from the calculation of a taxable disposal. I’m willing to ask officials to look at that issue and to see whether or not we need to respond to it in the way that we are currently intending to.”<sup>111</sup>

---

## Safbwynt y Pwyllgor

**136.** O ran bod y rhestr o ddeunyddiau cymwys yn cael ei phennu gan y pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 15 (Deunydd cymwys), mae’r Pwyllgor yn nodi barn Ysgrifennydd y Cabinet fod hyn yn gyson â’r drefn yn y DU a’r Alban. Fodd bynnag, mae’r Pwyllgor yn pwysleisio eto na ddylai’r hyn a wneir mewn manau eraill, o reidrwydd, osod cynsail ar gyfer y modd y dylid gwneud pethau yng Nghymru.

**137.** Mae’r Pwyllgor o’r farn y dylai’r rhestr o ddeunyddiau cymwys fod ar y wyneb y Bil, a phe byddai Ysgrifennydd y Cabinet o’r farn y gall fod angen newid y rhestr yn y dyfodol, gellid cynnwys y ddarpariaeth honno fel pŵer i wneud rheoliadau. Daeth i’r casgliad y byddai cynnwys y rhestr yn ei ffurf bresennol ar wyneb y Bil yn ddull mwy tryloyw o weithredu.

**138.** Mae’r Pwyllgor yn cydnabod bod y rhan fwyaf o’r dystiolaeth wedi awgrymu y byddai’n ddefnyddiol cael eglurder ynghylch y darpariaethau o dan adran 16 (Cymysgeddau cymwys o ddeunyddiau) sy’n ymwneud â ‘swm bychan’. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet nad oedd yn bwriadu defnyddio’r pŵer i wneud rheoliadau o ran ‘swm bychan’, ond mae’r Pwyllgor o’r farn bod hwn yn faes y dylai Llywodraeth Cymru ystyried gwneud newidiadau iddo.

**139.** O ran y darpariaethau o dan adran 20 (Pennu pwysau deunydd gan y gweithredwr) a’r gofyniad i ‘bennu pwysau’r deunydd mewn gwarediad trethadwy **cyn** y gwneir y gwarediad’, mae’r Pwyllgor yn parhau i fod yn bryderus fod hon yn ddarpariaeth anymarferol ar gyfer rhai safleoedd tirlenwi, yn enwedig y modd y caiff deunyddiau cymwys eu pwysu ar safle tirlenwi Lamby Way, Caerdydd.

**Argymhelliad 11.** Mae’r Pwyllgor yn argymhell bod adran 15 (Deunydd cymwys) yn pennu’r rhestr o ddeunyddiau cymwys, a bod y Bil yn cynnwys pŵer i ddiwygio’r rhestr hon drwy reoliadau.

**Argymhelliad 12.** Mae’r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu’r Bil mewn perthynas ag adran 16 (Cymysgeddau cymwys o ddeunyddiau) gan gyfeirio’n benodol at y darpariaethau o dan yr adran hon sy’n cyfeirio at ‘swm bychan’.

**Argymhelliad 13.** Mae’r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu’r Bil mewn perthynas ag adran 20 (Pennu pwysau deunydd gan y gweithredwr) gan gyfeirio’n benodol at y gofyniad i ‘bennu pwysau’r deunydd mewn gwarediad trethadwy **cyn** y gwneir y gwarediad’.

---

<sup>111</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Chwefror 2017, paragraff 208



## 07. Rhan 4 – Gwarediadau trethadwy a wneir mewn lleoedd heblaw safleoedd tirlenwi awdurdodedig

**140.** Mae Rhan 4 o'r Bil yn galluogi Awdurdod Cyllid Cymru i godi treth ar wastraff a waredir heb awdurdod mewn lleoedd heblaw safleoedd tirlenwi awdurdodedig. Bwriad y darpariaethau yw atal pobl rhag ceisio osgoi talu'r dreth drwy wneud gwarediadau heb awdurdod yn fwy o risg ariannol na thalu i waredu gwastraff mewn safle tirlenwi awdurdodedig. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y bwriedir i'r gyfradd ar gyfer gwaredu gwastraff heb awdurdod, a gaiff ei phennu mewn rheoliadau i'w gwneud gan Weinidogion, fod yn uwch na'r gyfradd safonol.<sup>112</sup>

**141.** Yn ôl y Memorandwm Esboniadol diben y darpariaethau hyn yw ategu ac nid disodli'r gyfundrefn bresennol o gyfraith amgylcheddol a gorfodi presennol y mae Cyfoeth Naturiol Cymru a'r awdurdodau lleol yn gyfrifol amdani.<sup>113</sup>

**142.** O dan opsiwn 3 yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, nodir bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dweud, ym mis Medi 2016, fod 60 o safleoedd gwastraff anghyfreithlon yng Nghymru, a bod tua 55,000 tonnell o wastraff ar draws y safleoedd hynny. Pe byddai treth yn cael ei chodi arnynt ar y gyfradd safonol, byddai hyn yn golygu bod oddeutu £2.1 miliwn o drethi wedi'u hefadu.<sup>114</sup>

**143.** Yn ôl y Memorandwm Esboniadol bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn dirprwyo'r swyddogaethau cydymffurfio a gorfodi i Cyfoeth Naturiol Cymru, sydd â pherthynas eisoes â gweithredwyr safleoedd tirlenwi a gwybodaeth helaeth am y diwydiant gwastraff. Cynhwysir y cyllid a ddyrennir i Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni'r swyddogaethau hyn yng nghostau gweithredol cyffredinol Awdurdod Cyllid Cymru, sef rhwng £2.8 miliwn a £4 miliwn y flwyddyn o 2018-19 ymlaen.<sup>115</sup>

**144.** Croesawodd Deloitte'r dull 'newydd' a gyflwynir yn y Bil i fynd i'r afael â gwarediadau heb eu hawdurdodi, gan ddweud:

---

“Given that landfill tax has proven successful in changing behaviour in the legitimate waste treatment sector there are good grounds for using landfill disposals tax to encourage further behaviour change in Wales (...) The deterrent effect of this measure may depend upon how readily and effectively it can be applied, and this would be hindered if the provisions are too complicated or difficult to apply.”<sup>116</sup>

---

**145.** Mynegodd cynrychiolydd Pwyllgor Cynghori ar Ailgyrchu yr Awdurdodau Lleol bryder na fyddai'r darpariaethau ar gyfer gwarediadau anawdurdodedig yn ddigon o rwystr ar eu pennau eu hunain:

---

“...you apply the tax on these unauthorised disposals but you can only apply it ... if you actually catch the person who's caused the tipping in the first place and if the likelihood of catching them is fairly small because the resources aren't put into it then you're not going to recover the money in the first place. So, the expense then potentially becomes less of an issue for the person who's

---

<sup>112</sup> Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.76

<sup>113</sup> Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.105

<sup>114</sup> Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.71

<sup>115</sup> Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 70

<sup>116</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Tystiolaeth Ysgrifenedig, [LDT 14, Deloitte LLP](#)

doing it. If the expense is high and the likelihood of getting caught is high then both of these together become potentially a very big deterrent.”<sup>117</sup>

**146.** Er bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn croesawu'r gallu yn y Bil i Awdurdod Cyllid Cymru godi treth ar warediadau heb awdurdod mewn mannau heblaw safleoedd tirlenwi awdurdodedig, roedd hefyd yn cwestiynu a fyddai'r bygythiad o drethu yn newid ymddygiad.<sup>118</sup> Yn ôl Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:

“... it would be very, very useful ... to be able to leverage much higher penalties on them once they're actually caught and fined. Because one of our frustrations has been in courts; when we do take it through to court level, the fines don't often impact significantly on the operator. So having that additional fiscal leverage would certainly help.”<sup>119</sup>

### Adrannau 47 - 50 Hysbysiadau rhagarweiniol

**147.** Mae adrannau 47-50 yn cynnwys darpariaethau sy'n caniatáu i Awdurdod Cyllid Cymru gyflwyno hysbysiad rhagarweiniol a hysbysiad codi treth os yw'n ymddangos bod gwarediad trethadwy wedi'i wneud y tu allan i safle tirlenwi awdurdodedig.

**148.** Mae adran 48(1)(a) yn galluogi Awdurdod Cyllid Cymru i gynyddu'r amser rhwng dyroddi'r hysbysiad rhagarweiniol a dyroddi'r hysbysiad codi treth i fwy na 45 diwrnod. Mae adran 50 yn ei gwneud yn ofynnol i berson y dyroddwyd hysbysiad codi treth iddo dalu'r swm cyn diwedd y cyfnod 30 o ddiwrnodau (sy'n dechrau â'r diwrnod y dyroddir yr hysbysiad). Bydd adran 172 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (er nad yw'r adran hon mewn grym eto) yn galluogi person i apelio ee penderfyniad sy'n effeithio ar p'un a yw i dalu treth ddatganoledig neu swm y dreth ddatganoledig y mae i'w thalu.

**149.** Cwestiynodd Deloitte yr amserlen o 75 diwrnod i dalu treth ar warediadau heb awdurdod (45 diwrnod a 30 diwrnod). Dywedodd fod hwn yn ymddangos yn gyfnod anghymesur o fyr o ystyried y bydd gan Awdurdod Cyllid Cymru 20 mlynedd i gyhoeddi Hysbysiad Rhagarweiniol ar ôl y dyddiad y credir bod deunydd wedi cael ei waredu heb awdurdod. Roedd Deloitte hefyd yn cwestiynu a oedd unrhyw ddarpariaethau yn y Bil i'r unigolyn dan sylw ofyn am amser i dalu'r dreth a aseswyd pan fo anghydfod ynglŷn â'r mater a'i fod mewn caledi ariannol.<sup>120</sup>

### Tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet

**150.** Pan ofynnwyd pam y credai Ysgrifennydd y Cabinet fod budd i'r dreth ar gyfer gwarediadau heb awdurdod, hyd yn oed ar y gyfradd uwch, o ystyried nad yw'r system bresennol bob amser yn effeithiol, dywedodd fel a ganlyn:

Nid yw'r Bil yma'n mynd i newid y pethau i gyd, ond gyda'r pethau eraill mae NRW yn gallu eu gwneud—y pwerau sydd ganddyn nhw ar hyn o bryd—mae e jest yn un help arall i drïo mynd ar ôl pobl sy'n gwneud pethau fel hyn.”<sup>121</sup>

<sup>117</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2017, paragraff 237

<sup>118</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, Y Pwyllgor Cyllid, [LDT 02, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru](#)

<sup>119</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2017, paragraff 215

<sup>120</sup> Y Pwyllgor Cyllid, Tystiolaeth Ysgrifenedig, [LDT 14, Deloitte LLP](#)

<sup>121</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Rhagfyr 2016, paragraff 150

**151.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y dylai'r rhan hon o'r Bil dalu amdani'i hun oherwydd bod cyfradd dreth arall i'w phennu ar gyfer gwarediadau heb awdurdod:

“...there will be additional costs involved for NRW and local authorities in pursuing illegal waste sites that wouldn't be there otherwise. So, setting the tax at a level that reflects some of those additional burdens will be part of the way in which we will be able to make this part of the Act pay for itself.”<sup>122</sup>

**152.** O ran y cyfnod o 75 diwrnod, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

“As far as the 75 days is concerned, I think it's important to distinguish between a preliminary notice and the charging notice because they sometimes are conflated in the way that people talk about it. The preliminary notice is about the WRA gathering facts and deciding whether or not to issue a charging notice, so they have time to do that. When they've decided whether or not to go ahead, they then have a separate charging notice which is a request for tax where the WRA has formed the view that there is a liability to tax. The WRA can issue, too, an extension period if they think that a person needs more time to respond to a preliminary notice, and there are other safeguards then, of the sort I've described already, in terms of asking the WRA to examine its own course of action, then to challenge its course of action in front of a tribunal if the person concerned thinks that they would need to do that ... the 75 days is mitigated in a number of ways in what I've just described.”<sup>123</sup>

## Safbwynt y Pwyllgor

**153.** Roedd y rhai a ymatebodd i ymgynghoriad y Pwyllgor yn ansicr a fyddai'r darpariaethau yn y Bil i wneud personau penodol yn gyfrifol am warediadau heb awdurdod mewn rhai amgylchiadau yn ei gwneud yn haws i fynd i'r afael â gwarediadau heb awdurdod. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn derbyn esboniad Ysgrifennydd y Cabinet dros gynnwys y darpariaethau hyn a byddai diddordeb ganddo wybod yn y dyfodol a ydynt wedi cael eu defnyddio.

**154.** Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r dystiolaeth fod y cyfnod o 75 diwrnod i dalu'r dreth ar warediadau heb awdurdod yn fyr, yn enwedig os yw'r gwarediad heb awdurdod wedi ei wneud hyd at 20 mlynedd yn ôl, a bod Awdurdod Cyllid Cymru wedi bod yn ymchwilio am bedair blynedd. Mae'r Pwyllgor o'r farn, yn enwedig yn achos gwarediadau heb awdurdod hanesyddol neu os yw'r sawl sy'n cael ei gyhuddo yn ddieuog, nad yw hyn yn rhoi digon o amser i drethdalwyr baratoi tystiolaeth i wrthbrofi'r honiadau.

**Argymhelliad 14.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn monitro nifer y gwarediadau heb awdurdod a'r erlyniadau sy'n deillio o hynny, ac yn eu cyhoeddi, i fesur llwyddiant y darpariaethau sy'n ymwneud â gwarediadau heb awdurdod.

**Argymhelliad 15.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried newid y cyfnod o 75 diwrnod a ddarperir ar gyfer talu'r dreth ar warediadau heb awdurdod a allai fod wedi digwydd hyd at 20 mlynedd cyn hynny.

<sup>122</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Rhagfyr 2016, paragraff 126

<sup>123</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Chwefror 2017, paragraff 243

## 08. Rhan 5 – Darpariaethau atodol

**155.** Mae Rhan 5 yn gwneud darpariaeth atodol ar gyfer credydau, manau na ddylid eu defnyddio at ddibenion gwaredu gwastraff, a threfniadau ar gyfer ymchwiliadau a rhannu gwybodaeth. Mae hefyd yn nodi trefniadau mewn cysylltiad â phersonau, grwpiau, partneriaethau a chyfrff anghorfforedig.

### Pennod 4 – Cosbau o dan y Ddeddf hon

**156.** Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer nifer o gosbau newydd sy'n gymwys i safleoedd tirlenwi awdurdodedig, a gweithredwr y safle tirlenwi sy'n gyfrifol. Mae'r cosbau yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â gofynion pwysu, disgownt dŵr, cofrestru ag Awdurdod Cyllid Cymru a manau nad ydynt at ddibenion gwaredu.

**157.** Mae darpariaeth wedi'i chynnwys yn adran 72 i ddiwygio'r symiau cosbau a'r weithdrefn ar gyfer asesu cosbau drwy reoliadau.

**158.** Roedd cynrychiolwyr llywodraeth leol o blaid cynnwys y darpariaethau sy'n ymwneud â chosbau yn y Bil. Dywedodd cynrychiolydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fel a ganlyn: "to have clarity over what is required, and the fact there is a penalty there in place if those requirements aren't met, which, perhaps, previously haven't been quite so clear".<sup>124</sup> Roedd hefyd yn croesawu'r hyblygrwydd i ddiwygio lefel y cosbau yn ôl yr angen.<sup>125</sup>

**159.** Roedd cynrychiolydd y Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff hefyd o blaid y cosbau y darperir ar eu cyfer yn y Bil:

"failure to comply with a weighing requirement, failure to register, failure to comply with requirements of notices. All certainly are welcomed and supported."<sup>126</sup>

**160.** Dywedodd cynrychiolydd Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU ei fod yn gyfforddus â lefel y cosbau a bennir yn y Bil, ond ychwanegodd:

"No matter how high the penalties are, if they're not enforced and there's no chance, or a very small chance, of them being enforced, then they won't have the necessary deterrent effect."<sup>127</sup>

### Adrannau 60–62 Cosb am fethu â phennu pwysau yn briodol

**161.** Mae adrannau 60 – 62 yn pennu y gellir rhoi cosb o hyd at uchafswm o £500 i weithredwr safle tirlenwi nad yw'n cydymffurfio â gofyniad yn ymwneud â phennu pwysau'r deunydd, a hynny am bob gwarediad trethadwy sydd ynghlwm wrth yr achos o beidio â chydymffurfio. Gallai'r gosb hon ddeillio o fethiant i bwysu ar bont bwysu sy'n cydymffurfio neu fethiant i weithredu dull pwysu a gytunwyd.

### Adran 61 – Cosb am gymhwyso'r disgownt dŵr yn anghywir

**162.** Mae'r Bil yn gwneud darpariaethau i weithredwr y safle tirlenwi wneud cais i Awdurdod Cyllid Cymru am gymeradwyaeth i gymhwyso disgownt dŵr wrth gyfrifo pwysau trethadwy'r deunydd mewn

<sup>124</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2017, paragraff 206

<sup>125</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2017, paragraff 208

<sup>126</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2017, paragraff 252

<sup>127</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2017, paragraff 623

gwarediad trethadwy. Mae'r darpariaethau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwr safle tirlenwi gadw cofnod disgownt dŵr ar gyfer pob gwarediad trethadwy lle y rhoddwyd disgownt o'r fath. Mae'r gosb i weithredwr safleoedd tirlenwi sy'n cymhwyso disgownt dŵr yn anghywir yr un fath â'r gosb am fethu â phwyso'n gywir.

**163.** Roedd cynrychiolydd Pwyllgor Cynghori ar Ailgylchu yr Awdurdodau Lleol yn croesawu'r gosb am beidio â chymhwyso'r disgownt dŵr y cytunwyd arno yn gywir, ac eglurodd:

“if you're not registered properly and the agreements aren't in place for proper calculations, then that could start to cast doubt on the calculations and their validity, and then whether you're paying the right amount of tax or whether the right amount of tax is being recovered. So, having that penalty for not going through the proper process in the first place, hopefully, would act as a deterrent for people looking to use that as a potential loophole or potential way of avoiding paying some of the tax.”<sup>128</sup>

**164.** Ategwyd hyn gan gynrychiolydd y Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff:

“waste is a lot heavier and, therefore, ensuring that there is a requirement to give information regarding that is incredibly important because, otherwise, you would be paying over and above what you should be.”<sup>129</sup>

**165.** Dywedodd Deloitte ei fod o blaid cynnwys trefn ddisgowntio ar gyfer dŵr yn y Bil gan fod disgownt o'r fath ar gael eisoes yn y DU. Aeth rhagddo i ddweud:

“Current legislation restricts water discounting to material where added water constitutes 25% or more of the waste material. In prescribing the conditions where discounting is available, section 21 of the Bill does not include such a requirement and, given that setting a minimum would appear to be quite arbitrary, we endorse this. It seems to us that the WRA, perhaps assisted by NRW will be better placed to determine whether the discount applies in the context of the specific material being deposited.”<sup>130</sup>

**166.** Fodd bynnag, mae FCC Environment o'r farn nad yw'r gofyniad i weithredwr y safle wneud cais i Awdurdod Cyllid Cymru i gymeradwyo disgownt dŵr yn gyson â'r trefniadau yn Lloegr a'r Alban.<sup>131</sup>

**167.** Roedd cynrychiolwyr y gweithredwyr safleoedd tirlenwi yn credu bod y disgownt dŵr yn bwysig a chafwyd esiamplau ganddynt o achosion o'i ddefnyddio.<sup>132</sup> Esboniodd cynrychiolydd Biffa fod y disgownt dŵr yn cael ei ddefnyddio fel rhan o broses ddiwydiannol ac nid ar gyfer cludiant.<sup>133</sup>

**168.** Esboniodd Cyfoeth Naturiol Cymru nad yw'n gwybod ar hyn o bryd pa safleoedd yng Nghymru sy'n hawlio'r disgownt dŵr.<sup>134</sup>

<sup>128</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2017, paragraff 254

<sup>129</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2017, paragraff 258

<sup>130</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, [LDT 14, Deloitte LLP](#)

<sup>131</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, [LDT 16, FCC Environment Wales](#)

<sup>132</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 25 Ionawr 2017, paragraffau 306 a 308

<sup>133</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 25 Ionawr 2017, paragraff 309

<sup>134</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2017, paragraff 449

## Adrannau 63 - 66 Cosbau sy'n ymwneud â chofrestru

**169.** Mae adrannau 63-66 yn pennu y gellid rhoi cosb o £300 i unigolyn sy'n cyflawni gweithrediadau trethadwy heb fod wedi'i gofrestru.

**170.** Mynegodd cynrychiolwyr y gweithredwyr tirlenwi eu cefnogaeth i bennu swm uwch yn gosb am fetu â chofrestru ag Awdurdod Cyllid Cymru, a dywedodd cynrychiolydd Biffa:

“£300 is not a great deal of money, quite frankly, in considering how much landfill tax actually incurs.”<sup>135</sup>

## Tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet

**171.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor fod y gyfundrefn gosbi yn angenrheidiol er mwyn atal rhag peidio â chydymffurfio â'r system ac i ddiogelu'r refeniw.<sup>136</sup> Esboniodd fod lefel y gosb yn cael ei phenderfynu gan:

“contact with HMRC and Revenue Scotland to see what they believe the appropriate level of penalty would be. We looked at the TCMA, to make sure the penalties set up through this Bill were consistent with the TCMA.”<sup>137</sup>

**172.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd y byddai'r pŵer i wneud rheoliadau yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio'r gyfundrefn gosbau, gan gynnwys lefel y gosb os ydynt yn teimlo bod angen ei diweddarau neu os nad oedd yn effeithiol o ran helpu i gael gwared ar y math o ymddygiad y ceisir mynd i'r afael ag ef.<sup>138</sup>

**173.** Mewn perthynas â'r darpariaethau cynnwys dŵr, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol:

“A second contentious area is in relation to water discount. There are very good public health reasons why people are encouraged to put water in with material that is being brought for disposal, but you then have to discount the water when it comes to paying the tax because the water either just evaporates or sort of leaks away from the landfill site. How you do that— how you measure the amount of water and the water discount and how it operates—has also been litigiously contentious in the past. We put all that on the face of this Bill.”<sup>139</sup>

**174.** Gofynnwyd i Ysgrifennydd y Cabinet pam y byddai pobl sydd heb ymgeisio am ddisgownt treth dŵr yn cael eu cosbi, a'i ateb oedd:

“The reason we would want to penalise it, Chair, is that the water discount, we know, is an area that has been open to abuse in the past, so, in order to be able to claim the discount, you will need to have had an agreement to it. There will be a document that sets out the extent to which you are able to claim a discount for that relief, and we just want to be clear that if that agreement is not

<sup>135</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 25 Ionawr 2017, paragraff 324

<sup>136</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Rhagfyr 2016, paragraff 105

<sup>137</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Rhagfyr 2016, paragraff 105

<sup>138</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Rhagfyr 2016, paragraff 105

<sup>139</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion, 9 Ionawr 2017, paragraff 105



sustained, if people try to claim relief beyond what the agreement would allow them to, there will be a penalty for doing so.”<sup>140</sup>

**175.** Pan holwyd Ysgrifennydd y Cabinet yn fanylach pam y byddai rhywun yn cael ei gosbi am beidio â hawlio disgownt, dywedodd:

“It’s is not our intention to apply a penalty where an honest customer declares to the landfill site operator that there is less water content in the waste than stated in their water discount agreement. I am happy to say to the committee today that, having looked at the discussions you’ve already had, I’m willing to consider whether any amendment or other steps should be taken to clarify the position and put beyond any doubt the fact that we don’t intend a penalty to apply in the circumstances that have just been identified.”<sup>141</sup>

**176.** Mewn ymateb i gwestiynau am swm y gosb o £300 am beidio â chofrestru ag Awdurdod Cyllid Cymru, atebodd Ysgrifennydd y Cabinet fel a ganlyn:

“The process of getting a landfill site registered, approved and ready to operate is an onerous one, and the idea that, at the end of it, you would fail to register is a pretty remote contingency. We put a penalty in because if you did fail to register, it’s right that there should be a penalty. And it’s not just £300, because it goes up by £60 a day after that, as well, and it’s allied to other powers in the Tax Collection and Management (Wales) Act 2016, which would add to that penalty as well. But in practice, it’s very hard to imagine how any company that has gone to all the efforts it would have to make in order to establish a new landfill site would, at the very end of all of that, forget that it had to be registered, as well. So, we think it’s a proportionate power there.”<sup>142</sup>

**177.** O ran y gosb o £5,000 am fethu â chydymffurfio â manau nad ydynt at ddibenion gwaredu, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fel a ganlyn:

“...the point I would make there is just to be clear that it’s an ‘up to’ penalty. It isn’t that you’ll be guaranteed to be penalised £5,000 for a breach that would be caught up by it. It allows the Welsh Revenue Authority quite a lot of latitude to calibrate the penalty to the nature of the offence. It allows the WRA, for example, to impose no penalty at all if the landfill site operator were able to provide a different sort of evidence than the one that the WRA was originally looking for in terms of records, for example. So, this is an area of the Bill where we are actually proposing a less draconian penalty than the one that currently operates, because the current penalty is, if you get this wrong, everything becomes taxable, and that’s even if it’s quite a small breach of something. The result is that that penalty is almost never used, because it is so disproportionate that it’s practically not practical to use it, really. So, what we’ve tried to do is to find a different way that allows the WRA to have a better handle on what is going on on the landfill site, and if there are breaches, to be able to impose a

<sup>140</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Chwefror 2017, paragraff 198

<sup>141</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Chwefror 2017, paragraff 200

<sup>142</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Chwefror 2017, paragraff 225

penalty that is commensurate with the nature of the breach, and £5,000 is the top end of it. Because it's new, we will need to keep it under careful review to see that it is working out in the way that is intended, and the Bill allows for that to happen.”<sup>143</sup>

## Safbwynt y Pwyllgor

**178.** Mae'r Pwyllgor yn credu bod y materion a godwyd sy'n ymwneud â'r disgownt dŵr (adran 61 Cosb am gymhwyso'r disgownt dŵr yn anghywir) yn haeddu rhagor o ystyriaeth i sicrhau nad yw gweithredwyr yn cael eu cosbi am beidio â hawlio'r disgownt llawn. Mae'r Pwyllgor yn credu mai mater i'r gweithredwyr yw dewis peidio â hawlio'r disgownt llawn sydd ar gael iddynt, ac na ddylent gael eu cosbi am y dewis hwnnw.

**179.** Mae'r Pwyllgor yn credu bod y gosb o £300 am wneud gwarediad trethadwy heb gofrestru ag Awdurdod Cyllid Cymru yn is na'r disgwyl, yn enwedig o ystyried y gost o waredu gwastraff trwy dirlenwi, ac mae'n nodi bod Revenue Scotland a Chyllid a Thollau EM yn gallu pennu cosb fel canran o'r refeniw posibl a gollir. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod rhagnodi swm ar wyneb y Bil yn ddull mwy tryloyw.

**180.** O ran y gosb o £5,000 am fethu â chydymffurfio â manau nad ydynt at ddibenion gwaredu, mae'r Pwyllgor yn derbyn tystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet fod hon yn gosb 'hyd at', ac mai'r amgylchiadau dan sylw fyddai'n pennu union swm y gosb.

**Argymhelliad 16.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r darpariaethau yn adran 61 (Cosb am gymhwyso'r disgownt dŵr yn anghywir) i sicrhau na chaiff gweithredwyr eu cosbi os na fyddant yn gwneud cais am y disgownt llawn sydd ar gael iddynt.

**Argymhelliad 17.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r gosb sy'n gysylltiedig â methu â chofrestru gydag Awdurdod Cyllid Cymru.

## Adran 53 – Pŵer i wneud darpariaeth ar gyfer credydau treth

**181.** Mae adran 53 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â chredydau treth. Yn y Nodiadau Esboniadol rhagwelir y gallai pŵer hwn gael ei ddefnyddio pan fydd gweithredwr safle tirlenwi wedi gwaredu deunydd, wedi anfonebu'r cwsmer ac wedi talu'r dreth sy'n ddyledus i Awdurdod Cyllid Cymru o dan y Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Fodd bynnag, os daw i sylw gweithredwr y safle fod y cwsmer wedi mynd yn fethdalwr yn y cyfamser, ni all adennill y ddyled. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol:

“Fel yn yr Alban, rhagwelir y gallai Llywodraeth Cymru gyflwyno credyd dyled ddrwg a allai alluogi i weithredwr safle tirlenwi hawlio credyd yn gysylltiedig ag ansolfedd.”<sup>144</sup>

**182.** Esboniodd Biffa mai cynhyrchydd y gwastraff sydd â'r contract ac nid y cludwr. Y cynhyrchydd yw'r person sy'n bwrw'r gwastraff o'r neilltu, nid y sawl sy'n ei gludo. Dywedodd Biffa wrth y Pwyllgor ei fod wedi cael achosion lle nad yw wedi cael ei dalu gan gynhyrchwyr gwastraff penodol. Rhoddodd Biffa enghraifft benodol o gynhyrchydd yn trefnu i gwmni cludiant fynd â'r gwastraff i'w safle. Cafodd y gwastraff ei waredu yn y safle tirlenwi, ond ni wnaeth y cynhyrchydd (yr oedd Biffa wedi trefnu

<sup>143</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Chwefror 2017, paragraff 226

<sup>144</sup> Y Memorandwm Esboniadol

contract ag ef) dalu'r anfoneb yn ôl y gofyn. Yn yr amgylchiadau hyn, dywedodd Biffa nad oedd hawl ganddo ofyn i'r cwmni cludiant am y symiau nas talwyd iddo ac nad oedd ffordd o olrhain cynhyrchydd y gwastraff (yn enwedig lle'r oedd y cynhyrchydd wedi defnyddio enw cwmni arall nad oedd ganddo unrhyw gysylltiad â'r contract gwastraff gyda Biffa). Mae'n annhebygol y byddai contract ar gyfer bwrw gwastraff o'r neilltu yn cynnwys rhwymedigaeth i gwmni cludiant dalu anfoneb nas talwyd gan y cynhyrchydd (yn enwedig o gofio mai'r rhai sy'n llofnodi'r contract yw'r cynhyrchydd y gwastraff a Biffa). Felly, yn ôl y gyfraith, mae'n annhebygol y gallai cwmni cludiant fod yn gyfrifol am anfoneb sydd ei thalu. Mae'n debygol mai asiant fyddai'r cwmni cludiant i gynhyrchydd y gwastraff. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau lle mae cynhyrchydd yn esgus bod yn gwmni trydydd parti mae'n bosibl y gellid gwneud honiad o dwyll yn erbyn y cynhyrchydd. Os bydd yr heddlu o'r farn fod trosedd wedi'i chyflawni byddai modd iddynt ymchwilio i'r honiadau (gan gynnwys drwy gysylltu â'r cwmni cludiant i geisio canfod pwy yw cynhyrchydd y gwastraff).<sup>145</sup>

**183.** Dywedodd cynrychiolwyr Biffa a Cory Environmental eu bod, o dan y ddeddfwriaeth bresennol yn y DU, yn gallu hawlio rhyddhad ar ddyledion drwg a byddent yn hoffi gweld hyn ar wyneb y Bil.<sup>146</sup>

### Tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet

**184.** Yn ystod ei dystiolaeth i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet at ryddhad ar ddyledion drwg mewn perthynas â phwerau i wneud rheoliadau:

---

“... there are some areas that are just genuinely technical in detail. There are some tax credit powers that come with this Bill. We intend to use them in relation to bad debt credit. We think it's of such technical detail that the Assembly will get a better sight of it through regulations.”<sup>147</sup>

---

**185.** Holwyd Ysgrifennydd y Cabinet yn fanylach pam nad yw'r darpariaethau hyn i'w gweld ar wyneb y Bil, a'i ateb oedd:

---

“this is one of the areas in which we've taken a regulation-making power because of the complexity of constructing bad debt relief. I'm happy to provide an assurance that we do intend to bring regulations forward for this purpose and that we aim to introduce them in the autumn of this year ... the provision in the Bill is there and we do intend to use it. I think I ought to be clear with the committee as well that, at present, my intention would be to use it for insolvency—bad debt. So, drawing the bad debt credit more narrowly than it is currently drawn.

...

I intend to introduce a credit for bad debt, which is similar to that in Scotland. There, a landfill site operator is only able to claim a credit where their customer has become insolvent and where that insolvency means that the operator has been unable to recover some or all of the debt owed to them. We'd anticipate there would be a number of criteria that the operator would have to fulfil to demonstrate that. What I don't intend to do, at present, is to extend the credit to

---

<sup>145</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2017, paragraffau 165-171

<sup>146</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 25 Ionawr 2017, paragraff 165

<sup>147</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion, 9 Ionawr 2017, paragraff 29

circumstances where a landfill operator is owed money by somebody—they haven't gone into insolvency, they're just not paying the money. Now, at the moment, in some circumstances, landfill operators can get the taxpayer to pick up that Bill for them. I'm not sure that I think the taxpayer's interests are fully defended in those circumstances. Where it is simply a bad commercial decision and a landfill operator has entered into a relationship with someone and then that person turns out not to be reliable, is it right that the taxpayer picks up the consequences? Well, I think probably not. Insolvency; a different matter, because there's nowhere for the operator to go. So, I intend to make provision, but not to the extent that the provision is currently.”<sup>148</sup>

---

## Safbwynt y Pwyllgor

**186.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod yr angen am ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac mae'n fodlon ag esboniad Ysgrifennydd y Cabinet mai dim ond yn achos ansolfedd y byddai hyn yn gymwys. Fodd bynnag, mae o'r farn na ddylai cymhlethdod y darpariaethau rwystru'r manylion rhag cael eu cynnwys ar wyneb y Bil. Byddai'r Pwyllgor wedi hoffi gweld manylion am y darpariaethau hyn er mwyn sicrhau na chaiff referniw ei golli na gwastraff ei waredu heb archwiliadau digonol. Yn benodol, hoffai'r Pwyllgor wybod:

- pa amodau byddai angen i weithredwyr safle gydymffurfio â hwy er mwyn gallu hawlio unrhyw ryddhad o'r fath; ac
- a ddylid ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr gynnal proses o ddiwydrwydd dyladwy digonol ar gwsmeriaid posibl.

**Argymhelliad 18.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r ddarpariaeth ar gyfer rhyddhad ar ddyledion drwg ac o dan ba amgylchiadau y caniateir cymhwyso hynny, gael ei rhoi ar y wyneb y Bil, a bod hynny'n cael ei ategu gan bŵer i wneud rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

---

<sup>148</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Chwefror 2017, paragraff 72

## 09. Cynllun Cymunedol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi

### Y cefndir

**187.** Cronfa i gefnogi prosiectau cymunedol ac amgylcheddol lleol o fewn radiws o ddeg milltir i safle tirlenwi yw'r Gronfa Cymunedau Tirlenwi, a chaiff ei darparu gan gyfundrefn dreth bresennol y DU. Cynllun credyd treth sy'n galluogi gweithredwyr safleoedd tirlenwi i gyfrannu cyfran o'u rhwymedigaeth treth i brosiectau cymwys yw'r Gronfa Cymunedau Tirlenwi. Cyflwynwyd y Gronfa Cymunedau Tirlenwi ledled y DU, i gyd-fynd â Threth Dirlenwi'r DU, yn 1996 drwy is-ddeddfwriaeth. Caiff ei gweinyddu ar hyn o bryd fel cronfa sector preifat, drwy Gorff Rheoleiddio'r Cynllun Ymddiriedolaeth Amgylcheddol, Entrust.<sup>149</sup>

**188.** Yng Nghymru, mae 2,700 o brosiectau wedi'u cymeradwyo ers sefydlu'r Gronfa Cymunedau Tirlenwi – 4.7 y cant o gyfanswm y DU. Mae cyfanswm o £66.6 miliwn wedi'i wario ar brosiectau yng Nghymru, gan gynnwys £4.6 miliwn yn 2015-16. O'r prosiectau a gymeradwywyd yng Nghymru, mae 2,500 yn gyflawn.<sup>150</sup>

**189.** Mae'r Alban hefyd yn gweithredu cynllun credyd treth, Cronfa Cymunedau Tirlenwi yr Alban (SLCF), a ddisodlodd gynllun y DU yn yr Alban ar 1 Ebrill 2015.

### Cynllun Cymunedol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi Llywodraeth Cymru

**190.** Yn groes i'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban, mae Llywodraeth Cymru wedi llunio Cynllun Cymunedol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi y tu allan i'r Bil. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi fel a ganlyn am Gynllun Cymunedol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi:

“Ni fydd hwn yn cael ei ddarparu fel credyd treth ac, fel y cyfryw, ni fydd yn ofynnol iddo gael ei wneud mewn deddfwriaeth. Bwriad Llywodraeth Cymru yw creu'r cynllun gan ddefnyddio pwerau presennol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 gan alluogi iddo gael ei sefydlu fel cynllun grant. Bwriedir i'r dull hwn symleiddio'r broses o weinyddu'r cynllun a sicrhau bod cymaint o gyllid â phosibl yn cyrraedd prosiectau.”<sup>151</sup>

**191.** Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet fanylion Cynllun Cymunedol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi Llywodraeth Cymru<sup>152</sup> ar 13 Rhagfyr 2016, gan gadarnhau y bydd yn gynllun grant ac y bydd yr arian yn cael ei gynhyrchu drwy ddyrannu rhywfaint o refeniw'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi i gorff dosbarthu. Yn y ddogfen hon, mynegodd Llywodraeth Cymru ei bod yn disgwyl y bydd hyn yn creu ffrwd ariannu fwy rhagweladwy a mynd i'r afael â'r ymatebion i'r ymgynghoriad i sefydlu model gweinyddol symlach a mwy costeffeithiol.<sup>153</sup> Dywedodd y caiff penderfyniad ei wneud yn 2017 ynghylch swm y refeniw a gaiff ei ddyrannu i'r cynllun.<sup>154</sup>

**192.** Roedd yr ymatebwyr i ymgynghoriad y Pwyllgor yn croesau'n gyffredinol Gynllun Cymunedol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi, yn amodol ar yr angen i egluro'r trefniadau ariannu. Dywedodd Coed Cadw,<sup>155</sup> Ymddiriedolaethau Natur Cymru,<sup>156</sup> yr RSPB<sup>157</sup> a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol<sup>158</sup> fod angen

<sup>149</sup> **ENTRUST, y Gronfa Cymunedau Tirlenwi**

<sup>150</sup> Llywodraeth Cymru – **Cynllun Cymunedol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi**, Rhagfyr 2016, paragraff 1.16

<sup>151</sup> Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.45

<sup>152</sup> Llywodraeth Cymru – **Cynllun Cymunedol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi**, Rhagfyr 2016

<sup>153</sup> Llywodraeth Cymru – **Cynllun Cymunedol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi**, Rhagfyr 2016, paragraffau 2.3 a 2.5

<sup>154</sup> Llywodraeth Cymru – **Cynllun Cymunedol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi**, Rhagfyr 2016, paragraff 3.7

<sup>155</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, **LDT 10, Coed Cadw**

gwneud y sail ar gyfer dosrannu'r refeniw treth i Gynllun Cymunedol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn gliriach er mwyn bod yn fwy tryloyw a diogelu'r drefn ariannu. Yn ôl yr RSPB:

---

"...as it stands, there is no mention, or no link, between the actual tax and any kind of fund, whereas, in the current legislation for the UK, there is. Our concern is that the visibility and the protection of that fund, if it's not actually referenced, it's then under the goodwill, shall we say, of the Welsh Government, and later initiatives may somehow take precedence, and it would disappear. We commend trying to simplify it, because it is horribly complicated at the moment, but actually that link that's missing, and no reference, is a major concern."<sup>159</sup>

---

**193.** Roedd Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU hefyd yn rhannu'r un pryderon, ac awgrymodd:

---

"In order to avoid funding levels changing in accordance with political vagaries, we would advocate a statutory duty to allocate a certain percentage of the revenue generated by the landfill disposals tax to the Landfill Communities Scheme."<sup>160</sup>

---

**194.** Argymhellodd Cory Environmental fod Llywodraeth Cymru yn arfer pwyll mewn unrhyw ymrwymadau a wna ynghylch gwario'r incwm newydd ac nad yw'n codi disgwyliadau yn rhy uchel, o ystyried y gostyngiad tebygol yn y swm a gaiff ei godi mewn trethi a'r swm sydd felly ar gael ar gyfer Cynllun Cymunedol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi.<sup>161</sup>

**195.** Roedd yr RSPB,<sup>162</sup> Afonydd Cymru<sup>163</sup> ac Ymddiriedolaethau Natur Cymru<sup>164</sup> yn cefnogi cynnig Llywodraeth Cymru i benodi un corff dosbarthu i weinyddu'r cynllun ac roeddynt yn croesawu'r symleiddio a'r gostyngiad yn y costau gweinyddol a gynigir drwy'r dull hwn o weithredu.

**196.** Dywedodd yr RSPB fod Cynllun Cymunedol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn rhagori ar gynllun presennol y DU:

---

"That will save costs, because at the moment the regulator, Entrust, takes between 2 and 5 per cent, as a levy, of the scheme, so that would cut that out. It's good to see in the memorandum that it's going to be a procured, open process. Because it's going to be really important that whoever gives that money out has got a really good knowledge of the areas that are hoping to seek funding, that it's transparent, and that there aren't any arbitrary, shall we say, restrictions. Because the current regulator seems to interpret the legislation, which is quite broad in its initial sort of sense, and, over the years, the

---

<sup>156</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, [LDT 18, Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru](#)

<sup>157</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, [LDT 03, RSPB Cymru](#)

<sup>158</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, [LDT 12, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol](#)

<sup>159</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2017, paragraff 513

<sup>160</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, [LDT 05, Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU](#)

<sup>161</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, [LDT 20, Cory Environmental](#)

<sup>162</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, [LDT 03, RSPB Cymru](#)

<sup>163</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, [LDT 06, Afonydd Cymru](#)

<sup>164</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, [LDT 18, Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru](#)



restrictions have got tighter and tighter in all sorts of areas. It will good to see that those principles of transparency are set up from the beginning.”<sup>165</sup>

**197.** Roedd Cory Environmental a Biffa o’r farn y byddai gweithredwyr safleoedd tirlenwi yn colli’r berthynas yr oeddynt wedi’i meithrin â’r gymuned leol pe byddai’r gronfa yn gweithredu drwy gorff dosbarthu canolog, ond roeddynt yn cydnabod manteision y cynllun symlach.<sup>166</sup>

### **Meini prawf ar gyfer prosiectau cymwys**

**198.** Bwriedir y bydd Cynllun Cymunedol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn:

- ariannu prosiectau sy’n cefnogi bioamrywiaeth, lleihau gwastraff a gwneud gwelliannau amgylcheddol eraill o fewn radiws o bum milltir o safle tirlenwi neu orsaf trosglwyddo gwastraff (sy’n anfon o leiaf 2,000 tonnell o wastraff i safle tirlenwi bob blwyddyn);
- ei gwneud yn ofynnol i brosiectau ddangos sut y maent yn cyd-fynd â **Rhaglen Lywodraethu** Llywodraeth Cymru; **Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015** a mentrau eraill Llywodraeth Cymru, gan gynnwys mynd i’r afael â thlodi a chefnogi twf a swyddi;
- cynnig rhwng £5,000 a £50,000 o grantiau gan roi ystyriaeth i ariannu un prosiect sylweddol (dros £50,000) bob blwyddyn.<sup>167</sup>

**199.** Clywodd y Pwyllgor amrywiaeth barn am gwmpas daearyddol y cynllun, er bod cefnogaeth gyffredinol i gynnwys gorsafoedd trosglwyddo gwastraff.

**200.** Dywedodd Biffa ei fod o blaid y radiws llai o bum milltir, ac ychwanegodd:

“With the current Biffa Award, we’ve had to reduce the distance anyway, because 10 miles is when we had an awful lot going into the scheme. That has, with the tonnages reducing, dwindled dramatically. So, as a matter of course, we’ve had to refocus where we are putting moneys to, and it is going back to the communities directly around the landfill sites that are impacted by the trucks, et cetera. So, yes, around transfer stations would make perfect sense, because they get a tremendous amount of traffic on their roads.”<sup>168</sup>

**201.** Fodd bynnag, awgrymodd Afonydd Cymru<sup>169</sup> a Cory Environmental y gallai’r gostyngiad yn y pellter arwain maes o law at anawsterau o ran dod o hyd i brosiectau lleol yn y parh pum milltir. Dywedodd Cory Environmental:

“from our perspective, because a lot of the sites that we’ve got have been running for many, many years, sometimes it’s quite difficult to get schemes to come forward that are within the locale anymore, because they’ve taken quite a lot over a long period. So, in our experience, sometimes a little—we’ve been, in some places, doing the opposite to [Biffa] and looking further afield.”<sup>170</sup>

<sup>165</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2017, paragraff 563

<sup>166</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 25 Ionawr 2017, paragraffau 413-416

<sup>167</sup> Llywodraeth Cymru – **Cynllun Cymunedol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi**, Rhagfyr 2016, tudalennau 7-8

<sup>168</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 25 Ionawr 2017, paragraff 395

<sup>169</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2017, paragraff 567

<sup>170</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 25 Ionawr 2017, paragraff 396

**202.** Dywedodd Sefydliad Prydeinig y Galon fod newid y cyfyngiad daearyddol i brosiectau o fewn 10 i 5 milltir o safleoedd perthnasol yn gyfyngiad rhesymol ar gyfer prosiectau gwella bioamrywiaeth a'r amgylchedd sy'n lliniaru effeithiau lleol ond nad yw'n berthnasol nac yn ymarferol ar gyfer prosiectau atal gwastraff gan y byddai'r rhain yn cwmpasu amrywiaeth eang o weithgareddau a chyfathrebiadau yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.<sup>171</sup>

**203.** Roedd Afonydd Cymru hefyd yn cwestiynu sut y byddai Cynllun Cymunedol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn mynd i'r afael â phrosiectau trawsffiniol a thynnodd sylw at y ffaith nad yw afonydd yn cydymffurfio â chylchoedd o bum milltir.<sup>172</sup> Cytunodd yr RSPB nad yw bioamrywiaeth, yn enwedig, yn cymryd unrhyw sylw o ffiniau neu bethau mympwyol ar fapiau.<sup>173</sup>

**204.** Roedd Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU yn croesawu'r cwmpas daearyddol arfaethedig o safbwynt cymunedol, ond roedd yn cydnabod y gallai hyn achosi problemau o safbwynt amgylcheddol ac ecolegol.<sup>174</sup>

**205.** Awgrymodd Ymddiriedolaethau Natur Cymru y gallai'r ardal ddaearyddol ar gyfer prosiectau ecolegol fod yn ehangach nag ar gyfer prosiectau cymunedol,<sup>175</sup> a chynigiodd Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU roi'r pŵer i bwy bynnag sy'n gweinyddu'r cynllun, mewn amgylchiadau eithriadol, i ariannu prosiectau y tu allan i'r radiws hwnnw.<sup>176</sup>

**206.** Awgrymodd Afonydd Cymru y dylid rhoi ystyriaeth i fabwysiadu cysyniad o reoli ar sail dalgylch cyfan, gan ddefnyddio safle tirlenwi mewn unrhyw ddalgylch yn ffon fesur yn hytrach na'r cylch mympwyol o bum milltir.<sup>177</sup>

**207.** Galwodd yr RSPB ac Ymddiriedolaethau Natur Cymru am ddsbarthu'r arian yn rhwng y tair thema allweddol, sef bioamrywiaeth, lleihau gwastraff a gwelliannau amgylcheddol eraill.<sup>178</sup>

**208.** Gofynnodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ystyriaeth gael ei rhoi, os digwydd bod treth yn cael ei chodi, i sicrhau bod Cynllun Cymunedol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar gael i gymunedau lle mae achosion mynych o wastraff yn cael ei waredu heb awdurdod.<sup>179</sup>

**209.** Awgrymodd y Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff y dylid cynnwys proses o adfer safleoedd gwaredu gwastraff diffaith neu amddifad yng nghwmpas Cynllun Cymunedol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi.<sup>180</sup>

## Tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet

**210.** Pan holwyd ef am benderfyniad Lywodraeth Cymru i gyflwyno cynllun grant yn hytrach nag adlewyrchu cynllun credydau treth presennol y Gronfa Cymunedau Tirlenwi, esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet fel a ganlyn:

---

“the income from this tax is falling, and therefore the amount of money available for community use is falling as well. So, we wanted to try and design

<sup>171</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, [LDT 01, Sefydliad Prydeinig y Galon](#)

<sup>172</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2017, paragraff 567

<sup>173</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2017, paragraff 568

<sup>174</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2017, paragraff 569

<sup>175</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2017, paragraff 570

<sup>176</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2017, paragraff 571

<sup>177</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Cyllid, [LDT 06, Afonydd Cymru](#)

<sup>178</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2017, paragraffau 577 ac 586

<sup>179</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, Y Pwyllgor Cyllid, [LDT 02, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru](#)

<sup>180</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2017, paragraff 296

a scheme that was as simple and direct as possible and that minimised administration costs—the costs of administering the current scheme are that just over 10 per cent of the income it gets goes into administration. We think we can reduce that significantly, and that will squeeze more money out of a declining pot into community use. We think that doing it in this way will make it more flexible to deal with falling revenue streams, and that it will be a more stable arrangement than the current one, which relied on voluntary contributions from operators. Obviously, as their incomes fall, so either their ability or willingness to make voluntary contributions gets squeezed as well.”<sup>181</sup>

**211.** Wrth ymateb i'r awgrym na fyddai gan y corff dosbarthu sengl, unrhyw gysylltiad, o bosibl, â chymunedau penodol, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

“...the reason for wanting a single body, Chair, is that there will be a simple, one-step relationship here—the current system is a lot more complicated than that—where, if you are a community group and you have a scheme that meets one of the three main purposes that we set out for the drive behind the use of the money in the scheme, then you will go straight to that awarding body and they will make the decision. There'll be no intermediaries between you and it. We think there are a number of awarding bodies that already offer it on a Wales-wide basis, and which have very good coverage in all parts of Wales. We think it's possible to bring those two things together in a way that is both effective and simpler, particularly simpler for the small groups that very often get awarded grants from this fund.”<sup>182</sup>

**212.** Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai Cynllun Cymunedol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn cael ei ariannu o refeniw a gynhyrchir gan y Dreth Gwarediadau Tirlenwi.<sup>183</sup> Gofynnwyd am eglurhad ynghylch cyfran y refeniw i'w dyrannu i Gynllun Cymunedol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi ac a fyddai cyfran yr arian yn cynyddu wrth i swm y trethi a gesglir ostwng, er mwyn cadw'r cynllun yn sefydlog. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

“I imagine that would be a choice for a future Government. The message I have had to give to those organisations that have benefitted from the scheme so far is that the amount available will decline alongside the tax. That's part of the reason why we're trying to design it in this more proportionate and, sort of, modest way, so that more of the money does get directly to the benefitting organisations, and that there's more flexibility for how we can manage that in future.”<sup>184</sup>

**213.** O ran y rhesymeg ar gyfer lleihau'r cwmpas daearyddol, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod Cynllun Cymunedol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn ceisio culhau mewn un ffordd ac ymestyn mewn un arall, fel bod yr arian sy'n crebachu a fydd ar gael at y diben hwn o fudd i'r bobl hynny yr effeithir fwyaf andwyol arnynt gan weithrediad safleoedd tirlenwi.<sup>185</sup>

<sup>181</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Rhagfyr 2016, paragraff 154

<sup>182</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Rhagfyr 2016, paragraff 164

<sup>183</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Rhagfyr 2016, paragraff 170

<sup>184</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Rhagfyr 2016, paragraff 186

<sup>185</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Chwefror 2017, paragraff 274

**214.** Wrth ymateb i fater y prosiectau trawsffiniol, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod yn gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu dylunio'r cynllun mewn ffordd sy'n caniatáu ychydig o synnwyr cyffredin ar y ffiniau: y terfyn pum milltir o fewn Cymru yn ogystal â gweithgarwch trawsffiniol.<sup>186</sup> Ychwanegodd:

“The general principle I’m sure the committee would endorse is that Welsh taxpayers money ought primarily to be spent for the benefit of people in Wales. But where an organisation on the other side of the border wanted to put some money on the table to match some money that we were putting on the table to pursue a sensible course of action in relation to it I don’t want our scheme to artificially stand in the way of sensible ways of doing things.”<sup>187</sup>

**215.** Pan ofynnwyd a fyddai arian ar gael o Gynllun Cymunedol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi er mwyn adfer safleoedd gwaredu gwastraff diffaith ac amddifad, dywedodd swyddog Llywodraeth Cymru a ddaeth i'r cyfarfod gydag Ysgrifennydd y Cabinet nad oedd hynny wedi'i godi fel rhan o ymgynghoriad Llywodraeth Cymru. Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet i roi rhagor o ystyriaeth i hyn.<sup>188</sup>

## Safbwynt y Pwyllgor

**216.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sefydlu Cynllun Cymunedol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi ac i symleiddio'r modd y mae'n gweithredu er mwyn gwneud yn fawr o'r arian a roddir i brosiectau. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod angen rheoli disgwyliadau wrth i swm y dreth a gesglir ostwng, ond mae'n cydnabod yr amrywiaeth barn a fynegwyd yn y sylwadau a gafodd ynghylch Cynllun Cymunedol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi.

**Argymhelliad 19.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid cyfeirio at ddarpariaeth i sefydlu cynllun cymunedau ar wyneb y Bil, ond y gellid gwneud darpariaeth amgen ar gyfer y manylion am gymhwyso'r cynllun.

**Argymhelliad 20.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cadarnhau pa gyfran o refeniw'r dreth gwarediadau tirlenwi a gaiff ei dyrannu i Gynllun Cymunedol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi cyn i'r Bil ddod i rym.

**Argymhelliad 21.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru, wrth ystyried sut y byddai Cynllun Cymunedol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn gweithredu, roi sylw i'r meysydd canlynol a grybwyllwyd yn y dystiolaeth:

- adolygu cwmpas daearyddol y cynllun i fynd i'r afael ag anawsterau posibl o ddod o hyd i brosiectau lleol dros gyfnod o amser, neu ormod o alw o fewn y radiws o bum milltir;
- yr angen i sicrhau cymhwyster prosiectau trawsffiniol;
- rhannu'r arian yn gyfartal rhwng y tair thema allweddol, sef bioamrywiaeth, lleihau gwastraff a gwelliannau amgylcheddol eraill;
- sicrhau bod y cynllun ar gael i gymunedau lle mae achosion mynych o wastraff yn cael ei waredu heb awdurdod (os digwydd bod treth yn cael ei chodi);

<sup>186</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Chwefror 2017, paragraff 267

<sup>187</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Chwefror 2017, paragraff 267

<sup>188</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Chwefror 2017, paragraff 272

- cynnwys proses o adfer safleoedd gwaredu gwastraff diffaith neu amddifad o fewn cwmpas y cynllun.

## 10. Goblygiadau ariannol y Bil

**217.** Mae'r goblygiadau ariannol o gyflwyno a gweithredu'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn lle Treth Dirlenwi'r DU i'w gweld ym Mhennod 8 o'r Memorandwm Esboniadol. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a geir ym Mhennod 6, yn ystyried tri opsiwn mewn cysylltiad â'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi:

- Opsiwn 1 – Gwneud dim;
- Opsiwn 2 – Cyflwyno treth sy'n dyblygu'r Dreth Dirlenwi bresennol;
- Opsiwn 3 – Datblygu treth benodol i Gymru.

**218.** Opsiwn 3 yw'r opsiwn a ffefrir gan Lywodraeth Cymru ac mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn rhoi manylion y costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Fodd bynnag, yn ôl y Memorandwm Esboniadol, mae'r costau gweinyddol a nodwyd yn ymwneud â chasglu a rheoli trethi datganoledig yn fwy eang ac nid y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn benodol.<sup>189</sup>

### Costau Llywodraeth Cymru

**219.** Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, amcangyfrifir mai rhwng £4.8 miliwn a £6.3 miliwn yw cost sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru ar gyfer y cyfnod o dair blynedd rhwng 2016-17 a 2018-19.<sup>190</sup> Llywodraeth Cymru sy'n ysgwyddo'r costau hyn, ac maent yn cynnwys paratoi a chyhoeddi canllawiau, datblygu a chyflwyno hyfforddiant, a gweithredu trefniadau trosiannol er mwyn gallu casglu a rheoli'r holl drethi datganoledig yn effeithiol.<sup>191</sup> Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn amlygu na fu modd gwahanu'r costau gweinyddol sy'n ymwneud yn benodol â'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi.<sup>192</sup>

**220.** Amcangyfrifwyd y bydd costau gweithredu Awdurdod Cyllid Cymru rhwng £2.8 miliwn a £4 miliwn bob blwyddyn gan ddechrau yn 2018-19, ac mae hyn yn cynnwys costau gweithredol dirprwyedig Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer gweithgarwch ym maes sicrhau cydymffurfiaeth a gorfodi.<sup>193</sup> Mae hyn hefyd yn ymgorffori swyddogaethau cydymffurfio a gorfodi newydd ar gyfer gwaredu gwastraff heb awdurdod mewn lleoedd heblaw safleoedd tirlenwi awdurdodedig (Pennod 7 (Rhan 4 - Gwarediadau trethadwy a wneir mewn lleoedd heblaw safleoedd tirlenwi awdurdodedig)).<sup>194</sup>

**221.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio at gost ychwanegol i Lywodraeth Cymru, wrth i Gyllid a Thollau EM roi'r gorau i gasglu Treth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi yng Nghymru. Amcangyfrifir y bydd y gost ychwanegol hon tua £1 filiwn.<sup>195</sup>

**222.** Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru iddi fod yn gweithio'n agos â Llywodraeth Cymru, yn enwedig o ran sicrhau bod ei hadnoddau yn seiliedig ar y lefelau gwasaneth y cytunwyd arnynt a bod y cyllid yn adlewyrchu'r blaenoriaethau a'r agweddau ymarferol o gyflawni. Pan ofynnwyd i Cyfoeth Naturiol Cymru a oedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn adlewyrchu ei chostau'n gywir, atebodd fel a ganlyn:

---

<sup>189</sup> Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 70

<sup>190</sup> ibid

<sup>191</sup> Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.36

<sup>192</sup> Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 70

<sup>193</sup> Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.37

<sup>194</sup> Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.78

<sup>195</sup> Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 71



---

“Those figures came from our original estimate last year, so those need to be refined, and the level of resource that we’ll need to expend on this will really depend on some of the decisions that the WRA and we make, in terms of prioritisation. And also, to some extent, whether the WRA gets criminal powers. So, if it gets criminal powers, there’ll be a different response from us, and a different level of input, in terms of legal and enforcement and prosecution.”<sup>196</sup>

---

**223.** Mynegodd Cyfoeth Naturiol Cymru bryderon y gallai gweithredwyr safle gymryd camau penodol i osgoi talu trethi ac na ellid eu herlyn heb bwerau troseddol. Nid yw’r Rheol Gyffredinol yn Erbyn Osgoi Trethi a gynigir yn Rhan 7 o’r Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) yn darparu ar gyfer sancsiynau troseddol (fel y’i drafftiwyd ar hyn o bryd).

**224.** O ran y darpariaethau newydd ar gyfer gwaredu gwastraff heb awdurdod, awgrymodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y gallai’r Dreth Gwarediadau Tirlenwi arwain at drigolion yn rhoi pwysau ar awdurdodau lleol i ymchwilio achosion bach o warediadau heb awdurdod y maent hwy, yn hytrach na Chyfoeth Naturiol Cymru, yn gyfrifol amdanynt. Hefyd, dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y gallai canlyniadau anfwriadol ddeillio o dipio anghyfreithlon ar raddfa lai mewn mwy nag un lleoliad, a allai gynyddu’r costau glanhau ar gyfer awdurdodau lleol.<sup>197</sup>

**225.** Pan drafododd y Pwyllgor y mater hwn ymhellach, dywedodd cynrychiolydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fel a ganlyn:

---

“I think there is provision for NRW to get additional resource to undertake enforcement activity. Now, if there was additional resource made available to local authorities so they had more capacity to do this then, clearly, more of the sort of activity Tara mentioned could be undertaken. So we would certainly welcome that, and I think there have been some indications that Welsh Government are prepared to look at that.”<sup>198</sup>

---

**226.** Er mwyn atal gwarediadau heb awdurdod, roedd Pwyllgor Cynghori ar Ailgylchu yr Awdurdodau Lleol a Chymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU yn gytûn bod yn rhaid cael trefn ystyrlon o orfodi ac archwilio wrth ehangu’r dreth.<sup>199</sup>

### **Costau trosglwyddo sy’n ymwneud â’r ddeddfwriaeth**

**227.** Mae’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi costau untro yn 2017-18 i weithredwyr safleoedd tirlenwi (£6,600) ac arbenigwyr treth (£13,000) am yr amser a gymerant i ymgyfarwyddo â’r ddeddfwriaeth. Mae’n ofynnol i weithredwyr â safleoedd tirlenwi yng Nghymru a Lloegr gyflwyno ffurflenni treth chwarterol ar wahân yn y ddwy wlad. Amcangyfrifir mai £150 y flwyddyn o 2018-19 ymlaen fydd cyfanswm y gost o wneud hyn.<sup>200</sup>

**228.** Cytunai Biffa a Cory Environmental, ill dau, fod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn adlewyrchu’n ddigonol yr effaith y bydd y Bil yn ei chael ar weithredwyr safleoedd tirlenwi.<sup>201</sup>

---

<sup>196</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2017, paragraff 335

<sup>197</sup> Tystiolaeth Ysgrifenedig, Y Pwyllgor Cyllid, [LDT 02, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru](#)

<sup>198</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 11 Ionawr 2017, paragraff 221

<sup>199</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Ionawr 2017, paragraffau 237 a 602

<sup>200</sup> [Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 71](#)

<sup>201</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 25 Ionawr 2017, paragraffau 369-370

## Arbedion

**229.** Yn ôl yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ni fydd Cyllid a Thollau EM mwyach yn ysgwyddo'r costau sy'n gysylltiedig â chasglu Treth Dir y Dreth Stamp na Threth Dirlenwi'r DU yng Nghymru a disgwylir y bydd yn ad-dalu Llywodraeth Cymru. Yn seiliedig ar ddata Revenue Scotland, amcangyfrifir mai £275,000 y flwyddyn fydd yr ad-daliad o 2018-19 ymlaen.<sup>202</sup>

**230.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi y bydd y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn cynnwys taliadau am waredu gwastraff heb awdurdodiad a nifer o gosbau newydd i ymdrin ag achosion o beidio â chydymffurfio. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn datgan nad yw'n hysbys ar hyn o bryd faint o bobl fydd yn peidio â chydymffurfio, ac felly ni ellir mesur y costau hyn.<sup>203</sup> O dan opsiwn 3, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi hysbysu, ym mis Medi 2016, y ceir 60 o safleoedd gwastraff anghyfreithlon yng Nghymru, a bod tua 55,000 tunnell o wastraff ledled y safleoedd hyn. Pe byddai treth yn cael ei chodi arnynt ar y gyfradd safonol, byddai hyn yn golygu bod oddeutu £2.1 miliwn o drethi wedi'u hefadu.<sup>204</sup>

**231.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi manteision anariannol eraill, gan gynnwys:

- cefnogi polisiau gwastraff ac amgylcheddol Llywodraeth Cymru;
- diweddarau a chydgrynhoi'r ddeddfwriaeth bresennol; a
- rhoi sicrwydd a sefydlogrwydd i'r diwydiant gwastraff yng Nghymru.<sup>205</sup>

## Tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet

**232.** Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet y bydd cyllid yn cael ei neilltuo i Awdurdod Cyllid Cymru, ac yna bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn rhoi cyllid i Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni'r cyfrifoldebau cydymffurfio a gorfodi ar ei ran. Ychwanegodd:

“We are, at the moment, funding a post in NRW to consider how the compliance and enforcement functions will be carried out in practice. So, we're putting some extra money in upfront to prepare for this, but the funding route in future will be Government to WRA, WRA to NRW.”<sup>206</sup>

**233.** O ran y darpariaethau newydd ar gyfer gwaredu gwastraff heb awdurdod, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y dylai'r rhan hon o'r Bil dalu amdani'i hun oherwydd bod cyfradd dreth arall i'w phennu ar gyfer gwarediadau heb awdurdod:

“...there will be additional costs involved for NRW and local authorities in pursuing illegal waste sites that wouldn't be there otherwise. So, setting the tax at a level that reflects some of those additional burdens will be part of the way in which we will be able to make this part of the Act pay for itself.”<sup>207</sup>

**234.** Pan gyflwynwyd y Bil yn y Cyfarfod Llawn ar 29 Tachwedd 2016, holodd sawl Aelod Cynulliad a oedd digon o adnoddau gan Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni'i dyletswyddau newydd. Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet fel a ganlyn:

<sup>202</sup> Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 70

<sup>203</sup> Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.56

<sup>204</sup> Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.71

<sup>205</sup> Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 72

<sup>206</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Rhagfyr 2016, paragraff 67

<sup>207</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Rhagfyr 2016, paragraff 126

---

“Rydym eisoes yn darparu rhywfaint o arian ychwanegol i Gyfoeth Naturiol Cymru i ganiatáu iddo baratoi am y dyletswyddau newydd hyn. Cawn weld a fydd angen parhau i wneud hynny yn y dyfodol yn y ffordd honno. Rwy’n bendant yn agored i drafodaethau wrth i’r Bil ddatblygu ynglŷn â rhai trefniadau rhannu cyllid. Os yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu, drwy dargedu safleoedd gwastraff anghyfreithlon, cynyddu llif cyllid i mewn i’r WRA, nid yw’n ymddangos yn afresymol i mi na ddylai gael cadw cyfran o’r cyllid ychwanegol hwnnw i’w hybu i wneud mwy o waith yn y maes hwn. Rwy’n edrych ymlaen at drafod y posibilrwydd hwnnw wrth i’r Bil symud drwy’r broses graffu.”<sup>208</sup>

---

**235.** Ategyd hyn gan Ysgrifennydd y Cabinet pan holodd y Pwyllgor pa mor ddigonol yw’r adnoddau i blismona gwarediadau heb awdurdod:

---

“During the passage of the Bill so far, Chair, I’ve also indicated a willingness to discuss with local authorities and NRW a—I was going to say ‘profit sharing’, but that wasn’t what I meant. But if, as a result of these new powers, a greater tax income is generated as a result of their efforts, then I’m willing to discuss with them a way in which those benefits could be shared with them in order to incentivise them and to allow them to do more in that field. So, I think there are two different ways there in which we can support the work that will be required.”<sup>209</sup>

---

**236.** Mewn ymateb i’r sylwadau a wnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch y posibilrwydd o roi pwerau troseddol i Awdurdod Cyllid Cymru yn sgil y Dreth Gwarediadau Tirlenwi, gofynnodd y Pwyllgor i Ysgrifennydd y Cabinet a fyddai’n diweddarau’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol i adlewyrchu hyn. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet pe byddai’n penderfynu rhoi rheoliadau gerbron Cynulliad i roi’r pwerau hynny i Awdurdod Cyllid Cymru, byddai’n rhaid darparu Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar wahân i gyd-fynd â’r rheoliadau hynny.<sup>210</sup>

**237.** Pan ofynnwyd i Ysgrifennydd y Cabinet yn ystod y sesiwn dystiolaeth olaf a oedd ganddo unrhyw beth i’w ychwanegu o ran y costau sefydlu a dirwyn i ben, atebodd fel a ganlyn:

---

“I’ve got not further costs information to add. The costs for switch-off from HMRC and what will follow from that are bound up in the Land Transaction Tax and Anti-avoidance of Devolved Taxes (Wales) Bill as well as this one. I’ve taken to the committee that I would provide an update with information on LTTA as it proceeds through the committee. I’m still intending to do that. Maybe slightly artificially, in the Scottish context HMRC did not charge for turning off LDT arrangements because they were all paper-based. They don’t do it electronically, so there was nothing to switch off, in that sense, but they still charged them £1 million for LTTA and it’s a single figure, even though they sort of distinguish between the two taxes in charging that figure.”<sup>211</sup>

---

---

<sup>208</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 29 Tachwedd 2016

<sup>209</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Chwefror 2017, paragraff 232

<sup>210</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Chwefror 2017, paragraff 248

<sup>211</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Chwefror 2017, paragraff 250

## Safbwynt y Pwyllgor

**238.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y bydd cyflwyno'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn sicrhau y bydd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn parhau i gael y budd o'r refeniw a godir gan y dreth. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cydnabod y bydd prif ddiben y Dreth Gwarediadau Tirlenwi, sef hybu newid mewn ymddygiad amgylcheddol er mwyn rhoi llai o wastraff mewn safleoedd tirlenwi, yn arwain at ostyngiad yn y refeniw a geir o'r dreth ac mae'n llwyr gefnogi'r ymagwedd hon.

**239.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r amcangyfrif o gostau gweithredu Awdurdod Cyllid Cymru, sy'n cynnwys costau gweithredol dirprwyedig Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer gweithgarwch ym maes sicrhau cydymffurfiaeth a gorfodi. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod ei bod yn anodd mesur y costau sy'n gysylltiedig â gorfodi'r darpariaethau newydd sy'n ymwneud â gwaredu gwastraff heb awdurdod, gan na wyddys faint o ddiffyg cydymffurfio a geir. Fodd bynnag, mae'n nodi nad yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys amcangyfrif o'r costau.

**240.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y sylwadau a fynegwyd yn y dystiolaeth ac yn annog Llywodraeth Cymru i ddod i drefniant â Chyfoeth Naturiol Cymru a'r awdurdodau lleol i rannu refeniw, er mwyn sicrhau proses ystyrlon o orfodi yn achos gwarediadau heb awdurdod.

**241.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r amcangyfrif a ddarparwyd o gostau sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru a chostau dirwyn i ben Cyllid a Thollau EM ac mae'n croesawu'r wybodaeth ddiweddaraf a roddodd Ysgrifennydd y Cabinet yn ei lythyr dyddiedig 15 Chwefror 2017.<sup>212</sup> Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o gael y wybodaeth ddiweddaraf gan Ysgrifennydd y Cabinet pan ddaw i law, ac am y costau diweddaraf i ddirwyn Treth Dirlenwi'r DU i ben cyn gynted ag y bydd ar gael.

**Argymhelliad 22.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu costau manylach ar gyfer gorfodi'r darpariaethau sy'n ymwneud â gwaredu gwastraff heb awdurdod.

**Argymhelliad 23.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwmo i adolygu'r trethi am waredu gwastraff heb awdurdod ac yn sefydlu trefniant rhannu refeniw i gefnogi gweithgareddau Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol o ran gorfodi a chydymffurfio.

**Argymhelliad 24.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi costau sefydlu diwygiedig ychwanegol ar gyfer Awdurdod Cyllid Cymru a'r costau dirwyn i ben ar gyfer Treth Dirlenwi'r DU pan fyddant ar gael.

---

<sup>212</sup> Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, 15 Chwefror 2017

## Atodiad A – Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. **Mae trawsgriadau'r holl sesiynau tystiolaeth lafar** ar gael ar wefan y Pwyllgor.

Dyddiad	Enw/Sefydliad
15 Rhagfyr 2016	Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol Emma Cordingley, Llywodraeth Cymru Sarah Tully, Llywodraeth Cymru
11 Ionawr 2017	Tim Peppin, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Tara King, Cyngor Caerdydd
19 Ionawr 2017	Brian Mayne, Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff Lee Marshall, Pwyllgor Ymgynghorol Ailgylchu Awdurdodau Lleol Clare McCallan, Cyfoeth Naturiol Cymru Becky Favager, Cyfoeth Naturiol Cymru Kim Gutteridge, RSPB Dr Stephen Marsh-Smith, Afonydd Cymru Dr Patrick Bishop, Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU James Byrne, Ymddiriedolaethau Natur Cymru
25 Ionawr 2017	Mike Trotman, Deloitte LLP Gareth Pritchard, Deloitte LLP Jennifer Doyle, Cory Environmental Jacqueline Doone, Biffa Group Limited
2 Chwefror 2017	Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol Emma Cordingley, Llywodraeth Cymru Sarah Tully, Llywodraeth Cymru

## Atodiad B – Rhestr o’r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a’r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i’r Pwyllgor. Mae’r holl ymatebion i’r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar wefan y Pwyllgor.

<b>Sefydliad</b>	<b>Cyfeirnod</b>
Sefydliad Prydeinig y Galon	<a href="#"><u>LDT 01</u></a>
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	<a href="#"><u>LDT 02</u></a>
RSPB Cymru	<a href="#"><u>LDT 03</u></a>
Un Lais Cymru	<a href="#"><u>LDT 04</u></a>
Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU	<a href="#"><u>LDT 05</u></a>
Afonydd Cymru	<a href="#"><u>LDT 06</u></a>
Pwyllgor Cyngori ar Ailgylchu yr Awdurdodau Lleol	<a href="#"><u>LDT 07</u></a>
Cyfoeth Naturiol Cymru	<a href="#"><u>LDT 08</u></a>
Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr	<a href="#"><u>LDT 09</u></a>
Coed Cadw	<a href="#"><u>LDT 10</u></a>
Y Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff	<a href="#"><u>LDT 11</u></a>
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol	<a href="#"><u>LDT 12</u></a>
Alan Rees	<a href="#"><u>LDT 13</u></a>
Deloitte LLP	<a href="#"><u>LDT 14</u></a>
Cymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol Cymru	<a href="#"><u>LDT 15</u></a>
FCC Environment Cymru	<a href="#"><u>LDT 16</u></a>
Tata Steel	<a href="#"><u>LDT 17</u></a>
Ymddiriedolaethau Bywyd Gwylt Cymru	<a href="#"><u>LDT 18</u></a>
RWE Generation UK plc	<a href="#"><u>LDT 19</u></a>
Cory Environmental	<a href="#"><u>LDT 20</u></a>